**COMISIWN Y SENEDD**
**AMODAU CONTRACT SAFONOL AR GYFER PRYNU NWYDDAU**

Ebrill 2022

# AMODAU'R CONTRACT AR GYFER NWYDDAU

**Ni cheir ond amrywio'r amodau hyn gyda chytundeb ysgrifenedig y Partion. Ni fydd unrhyw delerau neu amodau a gyflwynir ar unrhyw adeg gennych chi yn ffurfio unrhyw ran o'r Contract.**

## 1. DIFFINIADAU

1.1 Yn yr Amodau hyn:

Ystyr 'Dyddiad Cychwyn' (‘Commencement Date’) yw'r dyddiad a bennir yn y Gorchymyn Prynu neu, os nad oes un, fel y’i pennir yn y Dogfennau Tendro neu'r dyddiad y cytunwyd arno fel arall yn ysgrifenedig rhwng y Partïon;

Ystyr 'Polisïau Gorfodol' (‘Compulsory Policies’) yw ein polisïau o bryd i'w gilydd, fel y’u nodir yn y Dogfennau Tendro neu a hysbysir i chi gennym yn ysgrifenedig;

Ystyr 'Amod' (‘Condition’) yw amod yn yr Amodau hyn;

Ystyr 'Gwybodaeth Gyfrinachol' yw gwybodaeth (sut bynnag y caiff ei chyfleu neu ar ba gyfrwng bynnag y caiff ei storio), y byddai ei datgelu yn gyfystyr ag achos cyfreithadwy o dorri cyfrinachedd, ac sydd naill ai wedi'i dynodi yn gyfrinachol gan y naill Barti neu'r llall yn ysgrifenedig neu y dylid ei hystyried yn destun dyletswydd cyfrinachedd; ac mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â materion busnes, eiddo, asedau, arferion masnachu, datblygiadau, cyfrinachau masnach, hawliau eiddo deallusol, gallu arbenigol, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill Barti neu'r llall, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny;

Ystyr 'Contract' (‘Contract’) yw'r contract rhyngom ni a chi ac mae'n cynnwys naill ai (i) y Gorchymyn Prynu a’r Amodau hyn, neu (ii) y Dogfennau Tendro a’r Amodau hyn (ac unrhyw ddogfennau eraill (neu rannau ohonynt) a bennir yn y Dogfennau Tendro);

Ystyr 'Cyfnod y Contract' (‘Contract Period’) yw cyfnod hyd y Contract a bennir yn y Gorchymyn Prynu neu'r Dogfennau Tendro (fel y bo'n briodol);

Ystyr 'Pris y Contract' (‘Contract Price’) yw'r arian sy'n daladwy gennym i chi am ddarparu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau fel y'u nodir yn y Contract;

Mae i 'Prosesydd Data' (‘Data Processor’) yr un ystyr ag a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

Ystyr 'Deddfwriaeth Diogelu Data' (‘Data Protection Legislation’) yw'r holl ddeddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd gymwys sydd mewn grym o

bryd i'w gilydd yn y DU, gan gynnwys GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (OS 2003 Rhif 2426 fel y'u diwygiwyd;

Ystyr 'Diffyg' ('Default') yw unrhyw achos o dorri rhwymedigaeth gan y naill Barti neu'r llall o dan y Contract (gan gynnwys torri mewn modd ymwrthodol neu dorri telerau sylfaenol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) neu unrhyw ddiffyg, gweithred, anwaith, esgeulustod neu ddatganiad gan y naill Barti neu'r llall, ei gyflogeion, gweision, asiantau neu is-gontractwyr mewn cysylltiad neu mewn perthynas â phwnc y Contract, ac y mae'r Parti dan sylw yn atebol i'r llall amdano;

Ystyr Deddf Rhyddid Gwybodaeth ('FOIA') yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tani, ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth o bryd i'w gilydd mewn perthynas â hi a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004;

Ystyr 'Nwyddau' ('Goods') yw unrhyw nwyddau sydd i'w cyflenwi i ni gennych chi (neu gan unrhyw un o'ch is-gontractwyr) yn unol â'r Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef;

Ystyr 'Hawliau Eiddo Deallusol' yw patentau, dyfeisiadau, nodau masnach, nodau gwasanaeth, logos, hawliau dylunio (boed yn gofrestradwy neu beidio), ceisiadau am unrhyw un o'r uchod, hawlfraint, hawliau cronfa ddata, hawliau parth, enwau masnach neu fusnes, hawliau moesol ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau eraill tebyg, boed yn gofrestradwy neu beidio mewn unrhyw wlad (gan gynnwys y DU ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) a hawl i erlyn am beri coel;

Ystyr 'Partïon' ('Parties') yw ni a chi gyda'n gilydd, ac mae cyfeiriad at 'Parti' i'w ddehongli yn ôl y cyd-destun;

Mae i 'Data Personol' ('Personal Data') yr un ystyr ag a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Ystyr 'Safle' ('Premises') yw'r lleoliad lle y mae'r Nwyddau i'w danfon a/neu lle y mae'r Gwasanaethau i gael eu cyflawni, fel y'i pennir yn y Contract;

Mae i 'Proses' ('Process'), 'Prosesu' ('Processing'), 'Proseswyd' ('Processed') neu eiriau tebyg yr un ystyr ag a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

Ystyr 'Gorchymyn Prynu' ('Purchase Order') yw'r gorchymyn prynu (os oes un) a gyhoeddwyd gennym i chi ar gyfer prynu'r Nwyddau ac (os yw'n gymwys) y Gwasanaethau;

Ystyr 'Gofynion Perthnasol' ('Relevant Requirements') yw'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau cymwys sy'n ymwneud â gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd, gan gynnwys Deddf Llwgrwobrwyo 2010, ond heb fod yn gyfyngedig iddi;

Ystyr 'Gwasanaethau' ('Services') yw'r gwasanaethau (os oes rhai) sydd

i’w darparu fel y’u pennir yn y Fanyleb a, phan fo'r cyd-destun yn caniatáu hynny, bydd yn cynnwys unrhyw ddeunyddiau, erthyglau a Nwyddau sydd i’w cyflenwi oddi tani;

Ystyr 'Manyleb' (‘Specification’) yw'r fanyleb ar gyfer y Gwasanaethau yr ydym yn gofyn i chi eu cyflawni fel y'u darperir i chi, boed a ydynt wedi’u gosod ar Orchymyn Prynu neu wedi'u nodi yn y Dogfennau Tendro;

Ystyr 'Staff' (‘Staff’) yw'r holl bersonau a gyflogir gennych i gyflawni'r Contract ynghyd â’ch gweision, asiantau ac is-gontractwyr a ddefnyddir i gyflawni'r Contract;

Ystyr 'Treth' yw Treth ar Werth, tollau mewnforio ac unrhyw drethi neu dollau perthnasol eraill;

Ystyr 'Dogfennau Tendro' (‘Tender Documents’) yw'r dogfennau fel y'u rhestrir yn ein llythyr atoch ar ôl tendr cystadleuol sy'n dyfarnu'r Contract i chi;

Mae i ‘GDPR y DU’ (‘UK GDPR’) yr ystyr a roddir iddo yn adran 3(10) (fel y'i ategir gan adran 205(4)) o Ddeddf Diogelu Data 2018;

Ystyr 'ni' (‘us’) yw Comisiwn y Senedd neu unrhyw gynrychiolydd dynodedig ohono, a defnyddir 'ni', 'ein' neu 'ein hunain' hefyd mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd neu unrhyw gynrychiolydd dynodedig ohono;

Ystyr ‘Diwrnodau Gwaith’ (‘Working Days’) yw dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio unrhyw wyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr;

Ystyr ‘chi’ (‘you’) yw chi, y person, y bartneriaeth neu'r cwmni sy'n darparu Nwyddau a Gwasanaethau (os yw’n gymwys) i ni o dan y Contract, a bydd cyfeiriad at ‘eich’ yn cael ei ddehongli yn unol â hynny.

1.2 Yn yr Amodau hyn, bydd cyfeiriad at unrhyw statud, deddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn tebyg arall (‘**deddfwriaeth**’), oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at ddeddfwriaeth o'r fath fel y'i diwygiwyd gan unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol neu fel y’i cynhwysir mewn unrhyw ailddeddfiad dilynol ohoni.

1.3 Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb, ac mae cyfeiriadau at unrhyw berson yn cynnwys personau naturiol, partneriaethau, cwmnïau, corfforaethau a chyrff corfforedig eraill a phob person cyfreithiol arall o ba fath bynnag ac ym mha ffordd bynnag y'i ffurfiwyd, a bydd geiriau sy'n dynodi unrhyw ryw yn cynnwys y gwrywaidd a'r benywaidd.

1.4 Defnyddir penawdau a theip trwm yn y Contract er hwylustod yn unig ac ni fydd yn effeithio ar ddehongliad unrhyw ddarpariaeth o’r Contract.

1.5 Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd cyfeiriad at unrhyw ddogfen yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y ddogfen ar y dyddiad y gweithredir y Contract.

1.6 Mae cyfeiriadau at Amodau, oni ddarperir fel arall, yn gyfeiriadau at Amodau'r Contract.

1.7 Ystyr unrhyw gyfeiriad at 'cymeradwyaeth' gennym yw cymeradwyaeth ysgrifenedig.

1.8 Mae cyfeiriad at 'ysgrifennu' neu 'ysgrifenedig' yn cynnwys e-bost.

1.9 Wrth ddehongli'r Contract bydd y dogfennau a ganlyn yn cael blaenoriaeth yn y drefn y maent wedi'u rhestru i'r graddau na ellir darllen a chymhwyso unrhyw ddarpariaeth ynddynt ar y cyd ag unrhyw ddarpariaeth yn yr Amodau hyn:

1.9.1 y Gorchymyn Prynu;

1.9.2 y Dogfennau Tendro;

1.9.3 y Fanyleb;

1.9.4 yr Amodau.

2. **HYD**

2.1 Bydd y Contract yn dod i rym ar y Dyddiad Cychwyn ac yn dod i ben yn awtomatig ar ôl i Gyfnod y Contract ddod i ben, oni bai y caiff ei derfynu fel arall yn unol â'r Amodau hyn, neu ei derfynu yn gyfreithlon fel arall, neu ei ymestyn yn unol ag Amod 2.2.

2.2 Os darperir ar gyfer hynny yn y Contract, yn amodol ar berfformiad boddhaol gennych yn ystod Cyfnod y Contract, cawn ymestyn y Contract am y cyfnod ychwanegol a nodir yn y Contract. Os ydym yn dymuno gwneud hynny, byddwn yn rhoi rhybudd i chi ddim llai nag wyth diwrnod ar hugain (28) cyn diwedd Cyfnod y Contract. Bydd darpariaethau'r Contract yn parhau i fod yn gymwys trwy gydol unrhyw gyfnod estynedig.

3. **ASESU'R SAFLE**

3.1 Bernir eich bod wedi archwilio'r Safle cyn tendro er mwyn deall natur a graddau'r Nwyddau sydd i'w darparu a/neu'r Gwasanaethau sydd i'w darparu a'ch bod yn fodlon mewn perthynas â phob mater sy'n gysylltiedig â'r Nwyddau, y Gwasanaethau a'n Safle. Chi fydd yn talu unrhyw gost a ysgwyddir gennym oherwydd eich methiant i archwilio'r Safle neu i ddeall natur a graddau'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yn unol ag Amod 3.

3.2 Byddwn, ar eich cais, yn caniatáu mynediad sy'n rhesymol at ddiben archwilio fel y'i nodir yn Amod 3.1.

3.3 Heb gyfyngu ar Amod 25 os oes angen unrhyw fynediad, am ba reswm bynnag, i Safle sy'n eiddo i ni, neu'n cael ei reoli gennym, byddwch chi a'ch Staff yn cydymffurfio â'n gofynion rhesymol ni a'n cyflogeion o ran diogelwch ar bob adeg.

4. **Y NWYDDAU**

4.1 Bydd y Nwyddau yn cydymffurfio, ym mhob ffordd, ag unrhyw fanylion a bennir yn y Contract ac unrhyw amrywiadau iddo, er ein boddhad rhesymol.

4.2 Bydd y Nwyddau yn cydymffurfio, ym mhob ffordd, â gofynion unrhyw statudau, gorchmynion, rheoliadau neu is-ddeddfau sydd mewn grym o bryd i'w gilydd gan gynnwys (heb gyfyngu ar yr uchod) weithgynhyrchu, labelu, pacio, storio, trin a danfon y Nwyddau.

4.3 Bydd y nwyddau yn addas ac yn ddigonol at y diben y defnyddir Nwyddau o'r fath fel arfer ac at unrhyw ddiben penodol a hysbysir i chi gennym ac rydym yn dibynnu ar eich sgil a'ch crebwyll wrth gyflenwi'r Nwyddau a gweithredu'r Contract.

4.4 Mae'r Contract yn ymgorffori'r rheolau sy'n ymwneud â gwerthu yn ôl sampl.

4.5 Os bydd y Nwyddau yn cael eu swmpwerthu, bydd swmp y Nwyddau yn cyfateb i'r sampl o ran ansawdd.

4.6 Bydd y Nwyddau yn rhydd rhag unrhyw ddiffyg a fydd yn gwneud eu hansawdd yn anfoddhaol, boed yn amlwg ai peidio, ar ôl archwiliad rhesymol.

## 5. PENODIAD AR GYFER GWASANAETHAU

5.1 Mae Amod 5 yn gymwys os yw'r Dogfennau Tendro neu Orchymyn Prynu yn mynnu darparu'r Gwasanaethau.

5.2 Rydym yn eich penodi i ddarparu'r Gwasanaethau:

5.2.1 yn brydlon ac mewn modd proffesiynol a chwrtais er mwyn adlewyrchu a hyrwyddo ein delwedd;

5.2.2 gan gyd-fynd yn llwyr â'r Fanyleb a holl ddarpariaethau'r Contract;

5.2.3 yn unol â holl gyfreithiau a rheoliadau, codau ymarfer ac arferion da'r diwydiant sy'n gymwys;

5.2.4 yn unol â'n polisïau (gan gynnwys unrhyw bolisïau gwahaniaethu ar sail hil a chyfle cyfartal), rheolau, gweithdrefnau a safonau ansawdd fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

5.3 Rydych yn derbyn telerau'r penodiad fel y'u darperir yn Amod 5.2.

## 6. CYFLAWNI'R GWASANAETHAU

6.1 Mae Amod 6 yn gymwys os yw'r Dogfennau Tendro neu Orchymyn Prynu yn mynnu darparu'r Gwasanaethau.

6.2 Ar eich traul eich hunan, byddwch yn darparu'r holl Staff, cyfarpar, offer, peiriannau, deunyddiau neu eitemau ar gyfer darparu'r Gwasanaethau.

6.3 Os yw'r Contract yn darparu ar gyfer cyflawni'r Gwasanaethau fesul cam, rydych yn ymrwymo i gyflawni'r Gwasanaethau gan gydymffurfio'n llwyr â'r amserlen ar gyfer y camau fel y'u darperir yn y Contract.

6.4 Yn ychwanegol at unrhyw rwymedigaethau mwy penodol a osodir gan delerau'r Contract, mae'n ddyletswydd arnoch i ddarparu'r Gwasanaethau gan ddefnyddio hynny o sgil, gofal a diwydrwydd y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol gan gontractwr sy'n cyflawni'r un fasnach, busnes neu broffesiwn â chi ac sy'n brofiadol o ran darparu gwasanaethau o werth, natur, cwmpas a chymhlethdod tebyg i'r Gwasanaethau.

6.5 Byddwch yn dyrannu adnoddau digonol i sicrhau y gallwch ddarparu'r Gwasanaethau. Byddwch yn sicrhau bod eich holl rwymedigaethau sydd i'w cyflawni o dan y Contract yn cael eu cyflawni a'u rhoi ar waith gan Staff sydd â'r profiad, y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol, gan ddefnyddio pob sgil, gofal a diwydrwydd dyladwy. Byddwch yn defnyddio ymdrechion rhesymol i osgoi tarfu ar ein gweithgarwch gan y Gwasanaethau.

6.6 Byddwch yn sefydlu ac yn cynnal system rheoli ansawdd wedi ei chofnodi'n briodol (a fydd yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion manylach a nodir yn y Fanyleb) i sicrhau bod y Gwasanaethau yn cael eu cyflawni'n unol â darpariaethau'r Contract.

6.7 Yn ychwanegol at unrhyw hawliau eraill o dan y Contract, bydd gennym yr hawl i archwilio'r Gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar y Safle ar unrhyw adeg, heb roi rhybudd. Byddwch yn darparu i ni'r holl gyfleusterau y bydd arnom eu hangen ar gyfer archwiliad o'r fath.

6.8 O ran y Gwasanaethau y byddwch yn eu darparu yn eich safle chi (neu safle eich Staff), ar gais ysgrifenedig gennym, byddwch yn caniatáu i'n cynrychiolwyr awdurdodedig fynd i mewn i'r safle hwnnw i'w archwilio, ac i arsylwi ar waith yn cael ei wneud yno o dan y Contract. Byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol cyn gwneud unrhyw gais ysgrifenedig o'r fath, ac ni fyddwn yn gofyn am fynediad ac eithrio yn ystod eich oriau gwaith arferol.

6.9 Os canfyddir bod unrhyw ran o'r Gwasanaeth yn ddiffygiol neu'n wahanol, mewn unrhyw ffordd, i'r Contract, neu nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau'r Contract, byddwch yn ailgyflawni'r Gwasanaethau dan sylw ar eich traul eich hunan (heb dâl ychwanegol) o fewn amser a bennir gennym yn rhesymol ac, os na wneir hynny, bydd gennym hawl i gaffael cyflawniad o'r Gwasanaethau diffygiol gan drydydd parti neu i wneud y tasgau dan sylw ei hun.

6.10 Yn ychwanegol at ein hawliau yn Amod 6.9 (a heb gyfyngu ar Amod 22.6) cawn gadw taliad yn ôl am Wasanaethau a gyflawnwyd yn rhannol neu nas darparwyd ac ni fydd hynny yn cyfyngu arnom rhag defnyddio ein hawliau eraill o dan y Contract.

6.11 Os yw'r gost i ni o weithredu neu gaffael cyflawniad o'r Gwasanaethau diffygiol fel y cyfeirir atynt yn Amod 6.9 yn fwy na'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy i chi am Wasanaethau o'r fath, byddwch yn talu'r tâl dros ben i ni ar gais ar ben unrhyw symiau eraill sy'n daladwy gennych i ni.

6.12 Byddwch yn cydweithredu â ni (a chyflenwyr trydydd parti) mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau ac yn sicrhau bod eich Staff yn cydymffurfio ag unrhyw un o'n cyfarwyddiadau rhesymol.

## 7. RHWYMEDIGAETHAU STATUDOL

Wrth gyflawni'r Contract, byddwch yn cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau statudol cymwys sydd mewn grym am y tro, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles, yr amgylchedd, cyflogaeth, diogelu data, a gwahaniaethu, ond heb ragfarnu natur gyffredinol yr uchod. Byddwch yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod eich holl Staff sy'n cael eu cyflogi i weithredu'r Contract, neu sy'n ymwneud â hynny, yn dilyn y darpariaethau hyn. Byddwch yn ein hindemnio rhag yr holl achosion, hawliadau, colledion, gorchmynion, costau a threuliau rydym yn eu dioddef neu'n eu hwynebu o ganlyniad i dorri unrhyw rwymedigaeth statudol, neu mewn cysylltiad â hynny.

## 8. AMSER CYFLAWNI

8.1 Mae Amod 8 yn gymwys os yw'r Gorchymyn Prynu yn ei gwneud yn ofynnol darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â chyflenwi'r Nwyddau.

8.2 Byddwch yn dechrau cyflawni'r Gwasanaethau ar y dyddiad a nodir yn y Fanyleb a byddwch yn cwblhau'r Gwasanaethau erbyn y dyddiad a nodir yn y Fanyleb neu'n parhau i gyflawni'r Gwasanaethau am y cyfnod a nodir yn y Fanyleb (pa un bynnag sy'n gymwys). Mae'r amser cyflawni yn rhan hanfodol o'r Contract. Cawn, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ei gwneud yn ofynnol i chi weithredu'r Gwasanaethau yn y drefn rydym yn penderfynu arni. Os na roddir hysbysiad o'r fath, byddwch yn cyflwyno rhaglenni gwaith manwl ac adroddiadau cynnydd fel y gofynnwn o bryd i'w gilydd.

## 9. DANFON

9.1 Bydd y Nwyddau yn cael eu danfon i'r lle neu'r lleoedd a enwyd yn y Contract yn ystod ein horiau gwaith arferol. Bydd unrhyw fynediad i'r Safle ac unrhyw lafur a chyfarpar a ddarperir gennym mewn cysylltiad â danfon yn cael ei ddarparu heb i ni dderbyn unrhyw atebolrwydd o gwbl a byddwch yn ein hindemnio ni a'n cyflogeion, gweision, asiantau neu is-gontractwyr mewn perthynas ag unrhyw achosion, hawliadau, gorchmynion, colledion, taliadau, costau a threuliau yr ydym a'n cyflogeion, gweision, asiantau neu is-gontractwyr yn eu dioddef neu'n eu hwynebu o ganlyniad i unrhyw niwed neu anaf (boed yn angheuol neu fel arall) sy'n digwydd wrth ddanfon neu osod nwyddau, neu mewn cysylltiad â hynny, i'r graddau y gellir priodoli unrhyw niwed neu anaf o'r fath i unrhyw weithred neu anwaith gennych neu eich Staff.

9.2 Pan fo'r Contract yn ei gwneud yn ofynnol i'r Nwyddau gael eu danfon drwy'r Post Brenhinol neu gwmni cludo a gymeradwywyd gennym, mae arnom angen prawf ysgrifenedig bod pob llwyth o Nwyddau wedi ei ddanfon i'r Post Brenhinol neu gwmni cludo a gymeradwywyd gennym, neu wedi ei gasglu gan y Post Brenhinol neu gwmni cludo o'r fath, yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Rhaid rhoi hwn i ni o fewn saith (7) diwrnod i gwblhau pob dosbarthiad.

9.3 Bydd pob eitem sydd i'w danfon yn cael ei chadw yn eich warws neu fel a bennir yn y Contract.

9.3 O bryd i'w gilydd, gall fod yn ofynnol i chi gasglu a danfon eitemau i ni heb godi tâl ychwanegol.

10. **POLISÏAU GORFODOL**

Byddwch yn cydymffurfio â'n Polisïau Gorfodol ac unrhyw addasiadau iddynt fel yr hysbysir i chi yn ysgrifenedig o bryd i'w gilydd.

11. **EIDDO A RISG YN Y NWYDDAU**

11.1 Mae risg yn y Nwyddau heb ragfarnu unrhyw un o'n hawliau neu rwymedïau (gan gynnwys ein hawliau a'n rhwymedïau o dan Amod 37 (Contractwr Amgen)) yn trosglwyddo i ni ar adeg eu danfon ond (heb ragfarnu Amod 12.2 ac Amod 13) yn aros gyda chi os ydym yn darganfod difrod i'r Nwyddau ar ôl eu danfon ac rydym yn eich hysbysu o'r un peth o fewn pum niwrnod i'w danfon. Bydd y Nwyddau yn dod yn eiddo i ni ar adeg eu danfon.

11.2 Rydych yn gwarantu y byddwch yn trosglwyddo gwarant teitl llawn yn y Nwyddau i ni pan fydd y teitl yn trosglwyddo o dan Amod 11.1.

12. **ARCHWILIO, GWRTHOD A GWARANTU NWYDDAU**

12.1 Byddwch yn caniatáu i ni neu ein cynrychiolwyr awdurdodedig gynnal unrhyw archwiliadau neu brofion a ofynnwn yn rhesymol a byddwch yn darparu pob cyfleuster a chymorth rhesymol yn rhad ac am ddim. Ni fydd methiant i wneud cwyn ar adeg archwiliad neu brofion o'r fath na chymeradwyaeth a roddir yn ystod neu ar ôl profion neu archwiliadau o'r fath yn gyfystyr ag ildio gennym unrhyw un o'n hawliau neu rwymedïau mewn cysylltiad â'r Nwyddau.

12.2 Cawn, drwy hysbysiad ysgrifenedig i chi, wrthod unrhyw un o'r Nwyddau nad ydynt yn bodloni'r gofynion a bennir yn y Contract. Bydd hysbysiad o'r fath yn cael ei roi o fewn amser rhesymol ar ôl i'r Nwyddau dan sylw gael eu danfon atom. Os byddwn yn gwrthod unrhyw un o'r Nwyddau yn unol ag Amod 12, bydd gennym hawl (heb ragfarnu ein hawliau a'n rhwymedïau eraill) naill ai:

12.2.1 i'r Nwyddau dan sylw gael eu hatgyweirio cyn gynted â phosibl gennych neu (yn unol â'n dewis) i chi ddarparu Nwyddau yn eu lle sy'n cydymffurfio, ym mhob ffordd, â'r gofynion a bennir yn y Contract; neu

12.2.2 i gael ad-daliad gennych mewn perthynas â'r Nwyddau dan sylw.

12.3 Bydd unrhyw Nwyddau sy'n cael eu gwrthod neu eu dychwelyd gennym fel y'i nodir yn Amod 12 yn cael eu dychwelyd atoch ar eich menter a'ch cost.

12.4 Bydd cyfnod y warant sy'n gymwys i'r Nwyddau fel y’i nodir yn y Fanyleb neu’r Contract neu, os na nodir cyfnod, y cyfnod fydd deuddeg (12) mis i ddechrau eu defnyddio neu ddeunaw (18) mis i ddyddiad eu danfon, pa un bynnag fydd y byrraf (yn ddarostyngedig i unrhyw drefniadau gwarant eraill y cytunwyd arnynt yn ysgrifenedig rhwng y Partïon). Os byddwn, o fewn cyfnod gwarant o'r fath neu o fewn deg diwrnod ar hugain (30) wedi hynny, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i chi o unrhyw ddiffyg sydd wedi codi mewn unrhyw un o’r Nwyddau yn ystod cyfnod gwarant o'r fath wrth eu defnyddio mewn modd priodol ac arferol, byddwch (heb ragfarnu unrhyw hawliau a rhwymedïau eraill sydd gennym) yn unioni diffygion o'r fath mor gyflym â phosibl (boed drwy eu hatgyweirio neu ddarparu rhai eraill yn eu lle yn unol â’n dewis) heb gost i ni.

## 13. DIFRODI WRTH GLUDO

13.1 Wrth anfon unrhyw lwyth o Nwyddau, byddwch yn anfon nodyn danfon atom yn pennu'r dull cludo, y man a'r dyddiad anfon, y rhif archeb, y math o Nwyddau a’u maint.

13.2 Os bydd Nwyddau o'r fath yn cael eu difrodi wrth eu cludo, byddwn, o fewn deg diwrnod ar hugain (30) i'r dyddiad danfon, yn eich hysbysu bod y Nwyddau wedi eu difrodi. Byddwch yn atgyweirio Nwyddau sydd wedi eu difrodi wrth eu cludo, neu yn darparu rhai eraill yn eu lle (yn unol â’n dewis) yn rhad ac am ddim ac mor gyflym â phosibl.

13.3 Os nad yw'r Nwyddau yn cael eu danfon (ar yr amod eich bod wedi cael eich hysbysu bod y Nwyddau wedi cael eu dosbarthu), byddwn yn eich hysbysu, o fewn deg (10) diwrnod i'r dyddiad danfon a hysbyswyd, nad yw'r Nwyddau wedi eu danfon.

13.4 Byddwch yn cymryd ac yn cynnal gydag yswiriwr ag enw da sy'n cynnal busnes yn yr DU yswiriant llawn o hyd at £20,000.00 fesul cerbyd ar gyfer cludo nwyddau, a byddwch yn darparu tystiolaeth i ni, ar gais rhesymol gennym, fod polisi o'r fath yn cael ei gynnal, ar ffurf llythyr brocer neu debyg, ynghyd â derbynebau neu dystiolaeth arall bod y premiwm diwethaf a oedd yn ddyledus yn hynny o beth wedi ei dalu.

## 14. LABELU A PHACIO

14.1 Bydd y Nwyddau wedi eu pacio a’u marcio mewn modd priodol ac yn unol â’n gofynion (os oes rhai) ac unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion gan y cwmni cludo. Yn benodol, bydd y Nwyddau wedi eu marcio â rhif archeb, y pwysau net, gros a gweili. Bydd enw'r cynnwys wedi ei farcio’n glir ar bob cynhwysydd; a bydd rhybuddion amlwg a digonol ar bob cynhwysydd â nwyddau peryglus (a'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â hwy). Byddwch yn ein hindemnio a’n cyflogeion, gweision, asiantau neu is-gontractwyr rhag unrhyw achosion, hawliadau, gorchmynion, colledion, taliadau, costau a threuliau rydym a’n cyflogeion, gweision, asiantau neu is-gontractwyr yn eu dioddef neu’n eu hwynebu o ganlyniad i unrhyw achos o dorri Amod 14 neu mewn cysylltiad â hynny.

14.2 Ystyrir na fydd modd dychwelyd yr holl ddeunyddiau pacio oni bai bod eich nodyn cyngor yn datgan y codir tâl am ddeunyddiau o'r fath oni chânt eu dychwelyd. Nid ydym yn derbyn atebolrwydd os na fydd pecynnau

gwag a ddychwelir gennym yn cyrraedd eich safle oni bai eich bod yn ein hysbysu nad yw pecynnau o'r fath yn cyrraedd o fewn deg (10) diwrnod ar ôl i ni eich hysbysu bod y pecynnau wedi eu hanfon.

14.3 Caiff y defnydd mwyaf posibl ei wneud o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu wrth weithgynhyrchu cratiau, paledi, blychau, cartonau, deunydd clustogi a mathau eraill o ddeunydd pacio, pan fo'r rhain yn bodloni manylebau pacio eraill. Gellir adennill deunydd pacio i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu. Dylid adolygu manylebau deunydd pacio o bryd i'w gilydd i sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau diangen ar y defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

## 15. MONITRO PERFFORMIAD Y CONTRACT

Byddwch yn cydymffurfio â'r trefniadau monitro sydd wedi eu nodi yn y Contract a sut bynnag, byddwch yn darparu data a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyflawni'r Gwasanaethau fel y gofynnwn yn rhesymol o bryd i'w gilydd. Os byddwch yn ystyried (gan ymddwyn yn afresymol) nad ydych yn gallu cyflawni'r Gwasanaethau fel sy'n ofynnol yn ôl y Contract, byddwch yn rhoi gwybod i ni yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl gan nodi'r rhesymau dros hyn.

## 16. ARCHWILIO

16.1 Byddwch chi, a'ch Staff pan fo'n berthnasol, yn cadw cofnodion cyflawn a chywir o'ch perfformiad yn ystod y Contract, gan gynnwys yr holl daliadau a wneir gennym i chi mewn perthynas â'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau (neu'r ddau), am 6 blynedd o leiaf ar ôl dyddiad y taliad diwethaf a wneir gennym i chi o dan y Contract. Os gofynnwn am hynny, gan roi rhybudd rhesymol, byddwch yn caniatáu i ni, ein harchwilwyr neu unrhyw gorff rheoleiddio weld eich cofnodion, a rhai eich Staff pan fo'n berthnasol, at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â chyflawni'r Contract, ac yn caniatáu i ni neu ein harchwilwyr gymryd copïau o'r cofnodion hynny yn ôl y gofyn.

16.2 Byddwn yn defnyddio ymdrechion rhesymol i sicrhau nad yw cynnal pob archwiliad yn tarfu arnoch yn afresymol nac yn peri oedi wrth i chi gyflawni'r Contract.

16.3 Bydd yr Amod hwn yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 17. YR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD

17.1 Byddwch, wrth weithio ar y Safle, yn cyflawni'r Contract yn unol â'n polisi amgylcheddol fel y'i hysbysir i chi o bryd i'w gilydd.

17.2 Byddwch yn sicrhau y darperir y Nwyddau neu'r Gwasanaethau (neu'r ddau) mewn modd sy'n cydymffurfio â'r holl gyfreithiau amgylcheddol perthnasol a chodau ymarfer statudol ac arfer da yn y diwydiant.

17.3 Os bydd unrhyw Nwyddau (neu ddeunyddiau a ddefnyddiwch wrth ddarparu'r Gwasanaethau) yn cynnwys unrhyw gynhyrchion sy'n deillio o ffynonellau naturiol, byddwch yn gwneud ymdrechion rhesymol i sicrhau y daw'r adnoddau naturiol a ddefnyddir o ffynonellau cynaliadwy, a

byddwch yn cydymffurfio â’r holl gyfreithiau cymwys.

17.4 Os yw’n rhesymol bosibl, bydd y Nwyddau (a'r deunyddiau a ddefnyddiwch wrth ddarparu'r Gwasanaethau) yn ymgorffori deunyddiau y gellir eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu llosgi i adfer ynni. Byddwch yn gwneud pob ymdrech i leihau faint o ddeunyddiau a ddefnyddir a sicrhau bod yr holl brosesau a ddefnyddir wrth ddarparu'r Nwyddau neu’r Gwasanaethau (neu’r ddau) yn cael cyn lleied o effaith ar yr amgylchedd â phosibl.

18. **DIM YSMYGU**

Mae gennym bolisi dim smygu yn ein holl Safleoedd. Byddwch yn sicrhau bod eich Staff yn dilyn y polisi dim ysmygu wrth ddarparu unrhyw Wasanaethau ar ein Safle. Bydd unrhyw fethiant gan eich Staff i gydymffurfio â'n polisi dim ysmygu yn arwain at ofyn i'ch Staff adael ein Safle a chi fydd yn ysgwyddo unrhyw golled sy'n deillio o'r weithred hon.

19. **RHEOLI NEWID**

19.1 Cawn, ar unrhyw adeg, ofyn i chi addasu unrhyw ofyniad mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y Contract, gan gynnwys lleihau neu gynyddu nifer ac ansawdd y Gwasanaethau neu leihau neu gynyddu’r Gwasanaethau neu ddarparu Gwasanaethau ychwanegol. Gwneir y cais yn ysgrifenedig fel arfer (‘yr **Hysbysiad Newid**’) ac eithrio mewn perthynas â newidiadau mân neu rai nad ydynt yn sylweddol, pan gawn wneud y cais ar lafar yn unol ag Amod 19.8. Bydd yr Hysbysiad Newid yn rhoi'r manylion llawn i chi am unrhyw newid y gofynnir amdano ac unrhyw wybodaeth ychwanegol y gall fod ei hangen arnoch yn rhesymol er mwyn eich galluogi i ddarparu amcangyfrif ysgrifenedig o effaith y newid (‘yr **Amcangyfrif**’). Byddwch yn seilio'r Amcangyfrif ar y prisiau sydd wedi'u cynnwys yn eich ymateb i’r Dogfennau Tendro.

19.2 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a sut bynnag o fewn pedwar diwrnod ar ddeg (14) i gael yr Hysbysiad Newid, byddwch yn cyflwyno'r Amcangyfrif i ni, a fydd yn cynnwys y manylion a ganlyn:

19.2.1 unrhyw ostyngiad neu gynnydd ym Mhris y Contract mewn perthynas â'r newid; a

18.2.2 unrhyw effaith ar ddarparu’r Gwasanaethau.

19.3 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i ni gael yr Amcangyfrif, bydd y Partïon yn trafod yn ddidwyll ac yn cytuno ar y materion a nodir yn yr Amcangyfrif, gan gynnwys unrhyw newid i Bris y Contract. Mewn trafodaethau o'r fath, mae'n bosibl y byddwn yn addasu'r Hysbysiad Newid, a byddwch yn ein hysbysu o unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Amcangyfrif.

19.4 Os na chytunir ar gynnwys yr Amcangyfrif o fewn pedwar diwrnod ar ddeg (14) neu gyfnod rhesymol arall y bydd y ddau Barti yn cytuno arno, bydd gennym yr opsiwn i dynnu'r Hysbysiad Newid yn ôl neu gyfeirio'r mater i'w benderfynu yn unol â'r weithdrefn datrys anghydfod yn Amod 53.

19.5 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cytuno ar gynnwys yr Amcangyfrif neu ar ôl penderfynu arno fel arall yn unol â'r weithdrefn datrys anghydfod, byddwn naill ai:

19.5.1 yn cadarnhau yn ysgrifenedig ein bod yn derbyn yr Amcangyfrif; neu

19.5.2 yn tynnu'r Hysbysiad Newid yn ôl.

19.6 Bydd y newid, gan gynnwys unrhyw addasiad i'r Nwyddau neu’r Gwasanaethau (neu’r ddau) a/neu Bris y Contract, yn cael ei weithredu cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

19.7 Os nad ydym yn cadarnhau'r Amcangyfrif yn ysgrifenedig o fewn deg diwrnod ar hugain (30) i gytuno ar gynnwys yr Amcangyfrif neu ei benderfynu, ystyrir bod yr Hysbysiad Newid wedi ei dynnu'n ôl.

19.8 Er mwyn osgoi amheuaeth, byddwch yn cydymffurfio ag unrhyw newidiadau mân neu rai nad ydynt yn sylweddol i'r Nwyddau neu’r Gwasanaethau (neu’r ddau) y gallem ofyn amdanynt. Bydd newidiadau o'r fath yn dod i rym ar unwaith yn unol â thelerau unrhyw hysbysiad llafar neu ysgrifenedig gennym i chi, ac ni fyddant yn ddarostyngedig i’r gweithdrefnau Rheoli Newid a nodir yn Amod 19.

## 20. GWRTHDARO RHWNG BUDDIANNAU

20.1 Byddwch yn cymryd camau priodol i sicrhau na chewch, nac unrhyw aelod o’ch Staff, eich rhoi mewn sefyllfa lle y mae gwrthdaro gwirioneddol neu wrthdaro posibl rhwng eich buddiannau ariannol neu bersonol chi neu rai eich Staff a'r dyletswyddau sy'n ddyledus i ni o dan y Contract neu lle y gall buddiannau o’r fath fod. Mae'r Partïon yn cytuno bod hyn yn rhan bwysig o delerau’r Contract.

20.2 Byddwch yn datgelu i ni’r manylion llawn am unrhyw wrthdaro buddiannau o'r fath sy’n codi cyn gynted â phosibl ar ôl cael gwybod amdano.

## 21. PRIS Y CONTRACT

21.1 O gofio’r modd rydych wedi cyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract y byddwn yn talu Pris y Contract.

21.2 Os bydd cost cyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract yn cynyddu neu'n lleihau o ganlyniad i unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliad newydd a wneir ar ôl cychwyn Cyfnod y Contract, bydd unrhyw amrywiad i Bris y Contract yn cael ei asesu fesul achos unigol. Ni chaniateir amrywiad o'r fath mewn perthynas â deddfwriaeth na rheoliadau a ddeddfir ar ôl cychwyn Cyfnod y Contract, ond a oedd ar gael i’r cyhoedd cyn cychwyn Cyfnod y Contract. Tybir bod effaith unrhyw amrywiad o'r fath ar eich costau wedi'i chynnwys ym Mhris y Contract.

## 22. TALIAD A THRETH

22.1 Yn ychwanegol at Bris y Contract, byddwn yn talu i chi swm sy'n hafal i'r Dreth a godir ar werth y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau a ddarperir yn

unol â'r Contract.

22.2 Gwneir taliad mewn cyllid wedi'i glirio o fewn deg diwrnod ar hugain (30) i anfonebau ddod i law a chytuno arnynt, a gyflwynir yn fisol ar gyfer y mis blaenorol ar gyfer Nwyddau a gyflenwir a Gwasanaethau a ddarperir i'n boddhad.

22.3 Bydd pob anfoneb yn cynnwys yr holl gyfeiriadau priodol a dadansoddiad manwl o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, a bydd yn cael ei hategu ag unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol gennym i gadarnhau'r anfoneb.

22.4 Pan fyddwch yn ymrwymo i is-gontract gyda chontractwr at ddiben cyflawni'r Contract, byddwch yn achosi i deler gael ei gynnwys mewn is-gontract o'r fath sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi dalu'r is-gontractwr o fewn cyfnod penodedig nad yw'n fwy na deg diwrnod ar hugain (30) ar ôl i anfoneb ddilys ddod i law, fel y'i diffinnir gan ofynion yr is-gontract.

22.5 Bydd treth, pan fo'n gymwys, yn cael ei dangos ar wahân ar bob anfoneb fel tâl ychwanegol net llwyr.

22.6 Cawn leihau'r taliad mewn perthynas ag unrhyw Nwyddau a/neu Wasanaethau rydych naill ai wedi methu eu darparu neu wedi eu darparu'n annigonol, heb ragfarnu unrhyw un o'n hawliau a rhwymedïau eraill.

22.7 Os bydd unrhyw Barti yn herio unrhyw swm sydd i'w dalu ganddo, telir swm sy'n hafal i'r swm nad yw'n cael ei herio a phenderfynir ar yr anghydfod ynghylch y swm sydd heb ei dalu yn unol â'r weithdrefn datrys anghydfod yn Amod 53.

22.8 Yn unol â Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, bydd llog yn daladwy ar daliad hwyr os bydd unrhyw Bris Contract nad oes anghydfod yn ei gylch ac a anfonebwyd yn briodol o dan y contract. Ni fyddwch yn atal darpariaeth y Gwasanaethau os bydd unrhyw daliad yn hwyr.

22.9 Os ydym yn hwyr yn talu anfoneb, ysgrifennwch atom drwy ddefnyddio'r cyfeiriad hwn: Cyfrifon Taladwy, Gwasanaethau Ariannol, Comisiwn y Senedd, Senedd Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SC. Os na chaiff ei thalu o fewn amser rhesymol, ysgrifennwch at y Pennaeth Cyllid, Comisiwn y Senedd, Senedd Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SC. Mae'r weithdrefn hon heb ragfarnu hawliau cyfreithiol y naill Barti neu'r llall i herio'r swm sy'n ddyledus.

## 23. ADENNILL SYMIAU SY'N DDYLEDUS I NI

23.1 Pryd bynnag y bydd unrhyw swm o arian yn adenilladwy neu'n daladwy gennych o dan y Contract (gan gynnwys unrhyw swm rydych yn atebol i'w dalu i ni mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri'r Contract), cawn, heb ymgynghori, dynnu'r swm hwnnw o unrhyw swm sy'n ddyledus ar y pryd, neu a all ddod yn ddyledus yn ddiweddarach, i chi o dan y Contract neu o dan unrhyw gytundeb neu gontract arall gyda ni.

23.2 Bydd unrhyw ordaliad i chi gennym, boed o Bris y Contract neu o Dreth,

yn swm o arian y cawn ei adennill gennych.

23.3 Byddwch yn gwneud unrhyw daliadau sy'n ddyledus i ni heb dynnu arian, boed drwy osod un swm yn erbyn un arall, neu ar ffurf gwrth-hawliad, disgownt, lleihad neu fel arall, oni bai bod gennych orchymyn llys dilys sy'n ei gwneud yn ofynnol i swm sy'n hafal i'r didyniad gael ei dalu gennym i chi.

## 24. ADDASU'R PRIS WRTH YMESTYN CYFNOD Y CONTRACT

24.1 Bydd Pris y Contract yn gadarn am Gyfnod cychwynnol y Contract. Os bydd estyniad yn cael ei ystyried y tu hwnt i Gyfnod y Contract yn unol ag Amod 2.2 (‘**Cyfnod Estynedig y Contract**’), bydd y Partïon yn adolygu Pris y Contract cyn i Gyfnod cychwynnol y Contract ddod i ben.

24.2 Ni fydd unrhyw gais i gynyddu neu leihau Pris y Contract yn ystod Cyfnod Estynedig y Contract ond yn cael ei ystyried os cefnogir hynny gan fynegai priodol y cytunwyd arno eisoes rhwng y Partïon ar gyfer y cyfnod dan sylw, gan benderfynu mynegai o'r fath drwy drafod neu gyfryngu os nad yw'r Partïon yn cytuno.

24.3 Ar ôl sicrhau cytundeb ysgrifenedig gyda ni, cewch gynyddu neu leihau Pris y Contract y byddwch yn ei godi ar gyfer Cyfnod Estynedig y Contract.

## 25. EICH STAFF

25.1 Rydym yn cadw'r hawl o dan y Contract hwn i wrthod caniatáu i'r bobl a ganlyn ddod i unrhyw Safle sydd yn ein meddiant, neu ym meddiant rhywun arall ar ein rhan, neu i dynnu yn ôl unrhyw ganiatâd iddynt aros ar Safle o'r fath:

25.1.1 unrhyw aelod o'ch Staff; neu

25.1.2 unrhyw berson a gyflogir neu a benodir gan is-gontractwr, asiant neu was i chi,

y byddai caniatáu mynediad iddo neu ei bresenoldeb parhaus yn annymunol yn ein barn ni.

25.2 Rhaid i'ch holl Staff perthnasol gael eu clirio drwy archwiliad diogelwch gennym yn unol â'n gweithdrefnau fetio cyffredinol cyn i waith i gyflawni'r Contract ddechrau ar ein Safle. Bydd archwiliadau diogelwch yn cael eu hadnewyddu o bryd i'w gilydd yn unol â'n cyfarwyddiadau. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ein gofynion a'n gweithdrefnau fetio ar gais. Cawn ofyn am ragor o wybodaeth i symud y broses fetio yn ei blaen, a byddwch yn ei darparu i ni cyn gynted â phosibl ar ôl i ni ofyn amdani. Cawn wrthod clirio unrhyw un o'ch Staff o safbwynt diogelwch. Os ydym yn gwrthod cliriad diogelwch, ni chewch ddefnyddio hynny fel rheswm i oedi cyn cyflawni'r Contract na rhoi'r gorau i'w gyflawni.

25.3 Pan fyddwch chi a'ch Staff yn bresennol ar unrhyw Safle sydd yn ein meddiant, neu ym meddiant rhywun arall ar ein rhan, yn cydymffurfio'n llawn ag unrhyw reolau, rheoliadau a gofynion (gan gynnwys y rhai sy'n

ymwneud â threfniadau diogelwch ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) sydd mewn grym o bryd i'w gilydd mewn cysylltiad ag ymddygiad personél ar y Safle hwnnw. Gall hyn gynnwys gwiriadau diogelwch arnoch chi a'ch Staff, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

25.4 Os byddwch chi neu eich Staff yn methu cydymffurfio ag Amod 25.3, cawn (a bydd ein penderfyniad yn derfynol ac yn bendant) benderfynu bod methiant o'r fath yn niweidiol i'n gofynion diogelwch ac, os na fyddwch yn cydymffurfio â darpariaethau Amod 25.3 o fewn amser rhesymol i rybudd ysgrifenedig gennym i wneud hynny, cawn derfynu'r Contract ar yr amod na fydd terfynu o'r fath yn rhagfarnu nac yn effeithio ar unrhyw hawl i weithredu neu rwymedi sydd wedi cronni nac a fydd yn cronni i ni wedi hynny.

25.5 Os a phan fyddwn yn rhoi cyfarwyddiadau o'r fath, byddwch yn rhoi i ni restr o enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau y disgwylir y gall fod angen iddynt fynd i unrhyw Safle sydd yn ein meddiant, neu ym meddiant rhywun arall ar ein rhan, mewn cysylltiad â'r Contract, gan bennu pa rinwedd a wnelo â hwy, a rhoi manylion eraill a thystiolaeth o hunaniaeth a thystiolaeth ategol arall a ofynnwn yn rhesymol.

25.6 Byddwch yn cymryd y camau a ofynnwn yn rhesymol i atal personau heb eu hawdurdodi rhag cael caniatâd i fynd i'r Safle. Os byddwn yn eich hysbysu na fydd unrhyw berson yn cael caniatâd gennym i fynd i'r Safle neu y bydd yn cael ei symud o'r Safle neu nad yw i gymryd rhan yn y gwaith o gyflawni'r Contract neu ei fod i gael ei atal rhag gwneud hynny, byddwch yn cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â hysbysiad o'r fath ac os gofynnwn, byddwch yn rhoi person arall sydd â chymwysterau addas yn lle unrhyw berson sy'n cael ei symud o'r Safle o dan Amod 25 a byddwch yn sicrhau y bydd yn ildio unrhyw bàs a roddwyd iddo.

25.7 Bydd ein penderfyniad yn derfynol ac yn bendant ynghylch caniatáu i unrhyw berson gael caniatâd i fynd i'r Safle neu ei symud o'r Safle neu ganiatáu iddo gymryd rhan yn y gwaith o gyflawni'r Contract neu ei atal rhag gwneud hynny, ac ynghylch a ydych wedi rhoi'r wybodaeth neu wedi cymryd y camau sy'n ofynnol yn ôl Amod 25.

25.8 Nid oes gennym atebolrwydd mewn cysylltiad ag unrhyw hawliad a wneir neu unrhyw iawndal a ddyfernir mewn perthynas â dileu swydd neu ddiswyddo annheg neu ar gam i unrhyw un o'ch cyflogeion mewn cysylltiad â'u gwasanaeth gyda chi a hynny'n deillio o weithredu ein mesurau diogelwch.

25.9 Rydych yn cytuno i'n hysbysu o unrhyw anghydfodau sydd ar y gorwel gyda'ch cyflogeion a allai effeithio ar weithredu'r Contract.

## 26. IECHYD A DIOGELWCH

26.1 Byddwch yn ein hysbysu'n brydlon am unrhyw beryglon iechyd a diogelwch a all godi mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

26.2 Byddwn yn eich hysbysu ar unwaith o unrhyw beryglon iechyd a diogelwch a all fodoli neu godi ar ein Safle ac a all effeithio arnoch wrth gyflawni'r Contract.

26.3 Pan fyddwch ar ein Safle, byddwch yn cydymffurfio ag unrhyw fesurau iechyd a diogelwch a weithredir gennym mewn cysylltiad â staff a phersonau eraill sy'n gweithio yn y Safle hwnnw.

26.4 Byddwch yn ein hysbysu ar unwaith o unrhyw ddigwyddiad sy'n codi wrth gyflawni'r Contract ar ein Safle, pan fo'r digwyddiad hwnnw yn achosi unrhyw anaf personol neu ddifrod i eiddo a allai arwain at anaf personol.

26.5 Byddwch yn cymryd yr holl fesurau angenrheidiol i gydymffurfio â'r holl gyfreithiau cymwys (gan gynnwys rheoliadau a chodau ymarfer) o bryd i'w gilydd sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch gan eu bod yn ymwneud â chyflawni'r Contract a (heb gyfyngu ar hyn) a all fod yn gymwys i Staff a phersonau eraill sy'n gweithio ar y Safle wrth gyflawni'r Contract.

26.6 Byddwch yn darparu'n brydlon i ni, ar gais ysgrifenedig gennym, dystiolaeth o gydymffurfio ag Amod 26.5

## 27. ATAL LLWGRWOBRWYO

27.1 Byddwch yn sicrhau y bydd pob person sy'n gysylltiedig â chi neu sy'n ymwneud â darparu'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau (neu'r ddau) yn gwneud y canlynol:

27.1.1 cydymffurfio â'r Gofynion Perthnasol a pheidio â gwneud, nac anghofio gwneud, unrhyw weithred a all beri i ni dorri unrhyw un o'r Gofynion Perthnasol neu arwain at hynny;

27.1.2 peidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch, arfer neu ymddygiad a fyddai'n gyfystyr â throsedd o dan adrannau 1, 2 neu 6 o Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 pe bai gweithgarwch, arfer neu ymddygiad o'r fath wedi'i gynnal yn y DU;

27.1.3 sefydlu a chadw mewn grym drwy gydol cyfnod y Contract hwn eich polisïau a'ch gweithdrefnau eich hunan, gan gynnwys gweithdrefnau digonol o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, i sicrhau y cydymffurfir â'r Gofynion Perthnasol;

27.1.4 ein hysbysu'n brydlon o unrhyw gais neu orchymyn am unrhyw fantais ariannol ormodol neu fantais arall o unrhyw fath a gawsoch mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract;

27.1.5 ein hysbysu ar unwaith yn ysgrifenedig os bydd swyddog cyhoeddus tramor yn dod yn swyddog neu'n gyflogai yn eich busnes neu'n caffael buddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol ynddo.

27.2 Byddwch yn ein hindemnio mewn cysylltiad ag unrhyw achos gennych o dorri Amod 27.

## 28. TWYLL

28.1 Byddwch yn diogelu ein cyllid ar gyfer y Contract rhag twyll yn gyffredinol ac, yn benodol, dwyll ar ran eich Staff, neu eich cyfarwyddwyr a'ch

contractwyr.

28.2 Byddwch yn ein hysbysu ar unwaith os oes gennych reswm i dybio bod unrhyw dwyll wedi digwydd neu'n digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

## 29. Y GYMRAEG

Byddwch yn darparu'r Nwyddau neu’r Gwasanaethau (neu’r ddau) mewn modd sy'n ein galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o ran y Gymraeg o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a’n Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

## 30. CYFRINACHEDD

30.1 Rydych yn cydnabod mai ein heiddo ni yw unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a geir gennym neu sy'n ymwneud â ni a'n cyflogeion, gweision, asiantau neu is-gontractwyr.

30.2 Yn ddarostyngedig i Amod 30.7 bydd pob Parti yn gwneud y canlynol:

30.2.1 cadw'n gyfrinachol unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau a roddir iddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Parti arall, o dan y Contract hwn neu yn barod ar ei gyfer, gan gymryd mesurau diogelwch rhesymol y mae'n eu cymryd i ddiogelu ei wybodaeth gyfrinachol a'i gyfrinachau masnachol ei hun;

30.2.2 trin yr holl Wybodaeth Gyfrinachol a geir fel pe bai'n gyfrinachol a'i diogelu yn unol â hynny, a'i defnyddio at ddiben y Contract yn unig;

30.2.3 peidio â datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol i berson arall ar wahân i'w Staff sydd wedi derbyn rhwymedigaethau cyfrinachedd sy'n cyfateb i Amod 30 ac y mae angen iddynt gael mynediad at wybodaeth neu ddeunyddiau o'r fath mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

30.3 Heb ragfarnu Amod 30.2.3 o’r Contract, ni fydd y naill Barti na'r llall yn datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol i unrhyw berson arall o gwbl heb gael cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw y Parti sy'n ei rhoi.

30.4 Byddwch yn cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod eich Staff yn trin yr holl Wybodaeth Gyfrinachol yn gyfrinachol ac nad ydynt yn ei datgelu (heb ein cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw) na'i defnyddio heblaw at ddiben y Contract.

30.5 Heb ragfarnu natur gyffredinol yr uchod, ni fyddwch chi nac unrhyw un o'ch Staff yn defnyddio'r Wybodaeth Gyfrinachol ar gyfer deisyf busnes gennym, ein cyflogeion, gweision, asiantau nac is-gontractwyr.

30.6 Os byddwn o’r farn bod hynny'n angenrheidiol, byddwch yn sicrhau y bydd eich Staff neu unrhyw berson arall a benodir gennych mewn cysylltiad â'r Contract yn llofnodi ymrwymiad cyfrinachedd ar ffurf a bennir gennym cyn dechrau gweithio mewn cysylltiad â'r Contract.

30.7 Ni fydd darpariaethau o Amod 30 yn gymwys i unrhyw wybodaeth:

30.7.1 sydd neu a ddaw ar gael i'r cyhoedd (ac eithrio drwy dorri'r Contract); neu

30.7.2 sydd ym meddiant y Parti y mae'n dod i'w law, heb gyfyngiad o ran ei datgelu, cyn ei chael gan y Parti sy'n ei datgelu; neu

30.7.3 a geir gan drydydd parti a'i cafodd yn gyfreithlon, ac nad yw o dan rwymedigaeth sy'n cyfyngu ar ei datgelu; neu

30.7.4 sydd wedi ei datblygu'n annibynnol heb fynediad at y Wybodaeth Gyfrinachol; neu

30.7.5 y mae'n rhaid ei datgelu yn unol â rhwymedigaeth statudol, gyfreithiol neu seneddol a osodir ar y Parti sy'n ei datgelu, gan gynnwys unrhyw un o'n gofynion ar gyfer datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac yn unol ag Amod 33 (Rhyddid Gwybodaeth).

30.8 Ni fydd dim yn Amod 30 yn eich atal rhag:

30.8.1 datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol y mae'n ofynnol ei datgelu drwy orchymyn llys neu dribiwnlys cymwys arall neu y mae'n ofynnol ei datgelu yn ôl unrhyw ofyniad cyfreithiol cymwys; neu

30.8.2 datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol o'r fath i'ch cynghorwyr cyfreithiol a'ch cyfrifwyr pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol er mwyn cael cyngor cyfreithiol neu ar gyfer archwilio neu baratoi eich cyfrifon, ar yr amod bod cynghorwyr cyfreithiol a chyfrifwyr o'r fath yn rhwym i ddyletswydd cyfrinachedd broffesiynol.

30.9 Ni fydd dim yn Amod 30 yn atal y naill Barti na'r llall rhag defnyddio unrhyw dechnegau, syniadau neu wybodaeth a geir wrth gyflawni'r Contract er mwyn cynnal ei fusnes arferol, i'r graddau nad yw hyn yn arwain at ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol nac yn torri Hawliau Eiddo Deallusol.

30.10 Os byddwch yn methu cydymffurfio ag Amod 30, rydym yn cadw'r hawl i derfynu'r Contract drwy hysbysiad ysgrifenedig a ddaw i rym ar unwaith.

30.11 Bydd darpariaethau Amod 30 yn gymwys yn ystod cyfnod y Contract ac am gyfnod amhenodol pan ddaw i ben sut bynnag y digwydd hynny.

## 31. CYHOEDDUSRWYDD

31.1 Ni fyddwch yn sôn am ein henw mewn cysylltiad â'r Contract nac yn datgelu bodolaeth y Contract mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd nac unrhyw gyhoeddiad arall oni bai ein bod wedi cytuno'n flaenorol i hyn, a bod ein cynrychiolydd ag awdurdod priodol wedi cymeradwyo'r hyn yr ydych am ei wneud, yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

17.7 Bydd Amod 31 yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

32. **DIOGELU DATA**

32.1 Er mwyn i chi gyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract ac i ni barhau i gyflawni ein swyddogaethau yn effeithiol wrth fod yn Barti i'r Contract, gall fod angen i'r naill Barti Brosesu Data Personol y llall. Yn eich achos chi, gall hyn ymwneud â'n swyddogion a'n cyflogeion neu unigolion eraill y mae gennym berthynas â hwy ac mewn perthynas â ni gall hyn ymwneud â chi neu eich Staff neu is-gontractwyr neu unigolion eraill y mae gennych berthynas â hwy. Oni bai bod y Contract yn gofyn fel arall a bod trefniadau prosesu data ysgrifenedig ar wahân yn gymwys rhwng y Partïon, mae telerau Amod 32 yn gymwys i Brosesu Data personol.

32.2 O ran Amod 32.1, rydym yn cydnabod ac yn cytuno:

32.2.1 y cewch ddefnyddio Data Personol o'r fath ('**Ein Data Personol**') fel sy'n rhesymol ofynnol ar gyfer cyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract ('**Eich Diben a Ganiateir**');

32.2.2 ein bod yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn casglu unrhyw ganiatâd angenrheidiol, yn rhoi unrhyw rybudd angenrheidiol ac yn gwneud yr holl bethau eraill sy'n ofynnol o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data er mwyn i chi ddefnyddio Ein Data Personol at Eich Diben a Ganiateir;

32.2.3 byddwn, mewn perthynas â'n hawliau a'n rhwymedigaethau o dan y Contract o ran Ein Data Personol, ar bob adeg, yn cydymffurfio â’r Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac ni fyddwn yn cyflawni rhwymedigaeth o dan y Contract mewn modd sy'n peri i'r naill Barti na'r llall dorri unrhyw un o’i rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

32.3 O ran Amod 32.1, rydych yn cydnabod ac yn cytuno:

32.3.1 y cawn ddefnyddio Data Personol o'r fath ('**Eich Data Personol**') fel sy'n rhesymol ofynnol ar gyfer cyflawni ein rhwymedigaethau o dan y Contract ('**Ein Diben a Ganiateir**');

32.3.2 eich bod yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn casglu unrhyw ganiatâd angenrheidiol, yn rhoi unrhyw rybudd angenrheidiol ac yn gwneud yr holl bethau eraill sy'n ofynnol o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data er mwyn i ni ddefnyddio Eich Data Personol at Ein Diben a Ganiateir;

32.3.3 byddwch, mewn perthynas â'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau o dan y Contract o ran Eich Data Personol, ar bob adeg, yn cydymffurfio â’r Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac ni fyddwch yn cyflawni rhwymedigaeth o dan y Contract mewn modd sy'n peri i'r naill Barti na'r llall dorri unrhyw un o’i rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

33. **RHYDDID GWYBODAETH**

33.1 At ddibenion y Contract, bydd gan y termau ‘**Gwybodaeth**’ a ‘**Cais am**

**Wybodaeth**' yr ystyr a ragnodir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

33.2 Rydym yn gweithredu o dan God Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth ('y **Cod**'). Er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rydych yn cydnabod ein bod yn gweithredu o dan y Cod ac yn destun gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a byddwch yn ein cynorthwyo ac yn cydweithio gyda ni ar eich traul eich hun er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'n gofynion datgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (ac fel y nodir yn yr Amod 33 hwn).

33.3 Byddwch yn gwneud y canlynol:

33.3.1 trosglwyddo unrhyw Gais am Wybodaeth atom cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo ddod i law a beth bynnag o fewn 2 Ddiwrnod Gwaith i Gais am Wybodaeth ddod i law;

33.3.2 rhoi copi inni o'r holl Wybodaeth sydd yn eich meddiant neu eich pŵer ar y ffurf y mae arnom ni ei hangen o fewn 4 Diwrnod Gwaith (neu gyfnod arall y byddwn o bosibl yn ei nodi) inni ofyn am Wybodaeth o'r fath;

33.3.3 rhoi inni unrhyw resymau a thystiolaeth ategol y gallech ddymuno inni eu hystyried er mwyn ein galluogi i ystyried a yw unrhyw eithriadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gymwys; a

33.3.4 darparu'r holl gymorth angenrheidiol yr ydym yn gwneud cais rhesymol amdano er mwyn ein galluogi i ymateb i Gais am Wybodaeth o fewn yr amser ar gyfer cydymffurfio a nodir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

33.4 Ar ôl ymgynghori â'r Ymgynghorwr, ac ystyried ei farn, byddwn yn gyfrifol am benderfynu yn ôl ein disgresiwn llwyr a oes unrhyw Wybodaeth:

33.4.1 wedi ei heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; a

33.4.2 i gael ei datgelu mewn ymateb i Gais am Wybodaeth;

ac ni fyddwch mewn unrhyw achos yn ymateb yn uniongyrchol i Gais am Wybodaeth oni chewch eich awdurdodi'n benodol i wneud hynny gennym ni.

33.5 Rydych yn cydnabod y gall fod yn rhaid inni ddatgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

33.5.1 heb ymgynghori â chi; neu

33.5.2 ar ôl ymgynghori â chi ac ar ôl rhoi ystyriaeth i'ch barn;

a sut bynnag ni fyddwn yn atebol am golled, difrod na niwed arall sy'n deillio o ddatgelu unrhyw Wybodaeth sy'n ymwneud â'r Contract o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

33.6 Bydd Amod 33 yn gymwys yn ystod y Contract ac ar ôl iddo ddod i ben.

## 34. CYFLE CYFARTAL A'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL

34.1 Byddwch (a byddwch yn gwneud ymdrechion rhesymol i sicrhau y bydd eich Staff) yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 ar bob adeg wrth gyflawni'r Contract.

34.2 Byddwch yn gwneud, neu'n ymatal rhag gwneud, weithredoedd fel y gofynnwn i'n galluogi i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

34.3 Rydym yn gyflogwr ac yn ddarparwr gwasanaethau cyfle cyfartal. Byddwch yn gyflogwr ac yn ddarparwr gwasanaethau cyfle cyfartal ac yn cydymffurfio'n llawn â chyfreithiau cyfle cyfartal cymwys.

34.4 Dylech fonitro eich polisïau cyfle cyfartal a'ch arferion cyflogaeth yn briodol a rhoi tystiolaeth inni o hyn, os byddwn yn gofyn amdano yn ysgrifenedig.

34.5 Byddwch yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Nwyddau (a deunyddiau a ddefnyddir wrth ddarparu'r Gwasanaethau) yn cael eu cynhyrchu yn unol â holl gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol a gadarnhawyd gan wlad eu tarddiad.

## 35. HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL

35.1 Mae'n amod o'r Contract na fydd dim o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, ac eithrio i'r graddau y gwneir y Nwyddau yn unol â dyluniadau a ddarperir gennym, yn torri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol sydd gan unrhyw drydydd parti a byddwch yn ein hindemnio'n llawn rhag yr holl achosion, hawliadau, gorchmynion, colledion, taliadau, costau a threuliau rydym yn eu dioddef neu'n eu hwynebu o ganlyniad i dorri Amod 35 neu mewn cysylltiad â hynny.

35.2 Byddwch yn cael ein cymeradwyaeth cyn defnyddio unrhyw ddeunydd, mewn perthynas â chyflawni'r Contract, sydd neu a all fod yn ddarostyngedig i Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti. Os byddwn yn rhoi cymeradwyaeth o'r fath, byddwch yn peri i berchennog yr hawliau roi i ni drwydded nad yw'n gyfyngol i ddefnyddio, atgynhyrchu, addasu, newid a gwella'r deunydd sy'n ddarostyngedig i hawliau o'r fath neu, os ydych yn drwyddedai o'r hawliau hynny, byddwch yn rhoi i ni is-drwydded awdurdodedig i wneud hynny. Bydd trwydded o'r fath yn un wastadol, ddi-alw'n-ôl a bydd yn cael ei rhoi heb gost i ni.

35.3 Bydd yr holl Hawliau Eiddo Deallusol mewn unrhyw fanylebau, cyfarwyddiadau, cynlluniau, lluniadau, patrymau, modelau, dyluniadau neu ddeunydd arall:

35.3.1 rydych yn eu darparu i ni neu y byddwch yn trefnu iddynt fod ar gael i ni yn unol â'r Contract yn parhau i fod ein heiddo;

35.3.2 a baratowyd gennych neu i chi eu defnyddio, neu â'r bwriad i'w defnyddio, mewn perthynas â chyflawni'r Contract, drwy hyn, yn

cael eu haseinio i'r Goron a byddant yn perthyn i'r Goron yn llwyr, a heb ragfarnu Amod 30 (Cyfrinachedd) ni fyddwch, a byddwch yn sicrhau na fydd eich Staff, (ac eithrio i'r graddau y bo'n angenrheidiol er mwyn gweithredu'r Contract) yn defnyddio nac yn datgelu unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol o'r fath, na gwybodaeth arall (ni waeth a yw'n gymwys i'r Contract ai peidio) a gewch yn unol â'r Contract ac eithrio gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd fel arall heblaw mewn achos o dorri'r ddarpariaeth hon, ac yn benodol (ond heb ragfarnu natur gyffredinol yr uchod) ni fyddwch yn cyfeirio atom na'r Contract mewn hysbyseb heb ein cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw.

35.4 Byddwch yn ein hysbysu ar unwaith os gwneir unrhyw hawliad neu orchymyn neu os dygir achos yn eich erbyn am dorri, neu am achos honedig o dorri, unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract. Byddwch, ar eich traul eich hunan, yn cynnal unrhyw broses ymgyfreitha sy'n deillio o hynny a'r holl drafodaethau mewn cysylltiad â hynny ar yr amod, bob amser, y byddwch yn ymgynghori â ni ynglŷn â'r holl faterion o sylwedd sy'n codi yn ystod y broses ymgyfreitha a'r trafodaethau hynny a byddwch, wrth wneud hynny, yn ystyried ein buddiannau mewn modd dyledus a phriodol.

35.5 Ar gais gennych, byddwn yn rhoi i chi bob cymorth rhesymol at ddiben herio unrhyw hawliad neu orchymyn a wneir neu achos a ddygir yn ein herbyn neu yn eich erbyn am dorri, neu am achos honedig o dorri, unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract a byddwn yn ad-dalu'r holl gostau a threuliau (gan gynnwys costau cyfreithiol ac alldaliadau ar sail cyfreithiwr a chleient ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) a ysgwyddir wrth wneud hynny.

35.6 Ni fyddwn yn gwneud cyfaddefiadau a all fod yn niweidiol i amddiffyn neu setlo yn erbyn unrhyw hawliad, gorchymyn neu achos, neu achos honedig, o dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol gennym na chennych mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

35.7 Os gwneir hawliad neu orchymyn neu os dygir achos neu achos honedig o dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â'r Contract neu os ydych o'r farn resymol bod hynny'n debygol o ddigwydd, byddwch, ar eich traul eich hunan, ac yn amodol ar ein cymeradwyaeth (na chaniateir ei chadw yn ôl na'i gohirio'n afresymol) naill ai:

35.7.1 yn addasu unrhyw un, neu bob un, o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau heb leihau eu hansawdd na'u haddasrwydd at ddiben, neu ddarparu Nwyddau a/neu Wasanaethau eraill o'r un ansawdd ac addasrwydd at ddiben yn eu lle, er mwyn osgoi'r achos neu'r achos honedig o dorri Hawl Eiddo Deallusol, ar yr amod y bydd y Contract yn gymwys *mutatis mutandis* i'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau wedi'u haddasu neu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau newydd; neu

35.7.2 yn sicrhau trwydded i ddefnyddio'r Hawliau Eiddo Deallusol sydd wedi cael eu torri, neu yr honnir iddynt gael eu torri, ar delerau sy'n dderbyniol i ni.

35.8 Ni fydd darpariaethau blaenorol Amod 35 yn gymwys i'r graddau bod unrhyw hawliad neu orchymyn neu achos o'r fath yn ymwneud â’r canlynol:

35.8.1 unrhyw ddefnydd gennym neu ar ein rhan o Nwyddau a/neu Wasanaethau ar y cyd ag unrhyw eitem na chafodd ei chyflenwi na'i hawdurdodi gennych (yn gweithredu'n rhesymol wrth roi awdurdodiad o'r fath) pan fo defnydd o'r fath o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yn arwain yn uniongyrchol at yr hawliad, y gorchymyn neu'r achos; neu

35.8.2 defnyddio'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau mewn modd na ellir dod i’r casgliad rhesymol bod y Fanyleb yn ei awgrymu; neu

35.8.3 ein gwrthodiad afresymol i dderbyn Nwyddau a/neu Wasanaethau wedi'u haddasu neu rai newydd yn unol ag amod 35.7.1

35.9 Os byddwch wedi manteisio ar eich hawl i addasu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau neu i ddarparu rhai eraill yn eu lle neu i sicrhau trwydded, a'ch bod, wrth arfer hawliau o'r fath, wedi osgoi unrhyw hawliad, gorchymyn neu achos am dorri Hawl Eiddo Ddeallusol, ni fydd gennych atebolrwydd arall o dan Amod 35 mewn cysylltiad â'r hawliad, gorchymyn neu achos dan sylw.

35.10 Os nad oes modd addasu Nwyddau a/neu Wasanaethau na darparu rhai eraill yn eu lle, yn unol ag Amod 35.7.1 uchod, er mwyn osgoi torri Hawl Eiddo Deallusol ac os ydych wedi methu sicrhau trwydded yn unol ag Amod 35.7.2, bydd Amod 35.1 yn gymwys.

35.11 Mae'r uchod yn nodi eich atebolrwydd cyfan o ran torri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

35.12 Pan ddaw'r Contract i ben, byddwch yn dychwelyd atom ar unwaith yr holl ddeunyddiau, gwaith neu gofnodion a ddelir, gan gynnwys unrhyw gyfryngau i gadw copïau wrth gefn.

35.13 Bydd darpariaethau Amod 35 yn gymwys yn ystod cyfnod y Contract ac am gyfnod amhenodol ar ôl ei derfynu neu pan ddaw i ben sut bynnag y digwydd hynny.

## 36. INDEMNIAD AC YSWIRIANT

36.1 Byddwch yn ein hindemnio ac yn parhau i’n hindemnio ni, a’n cyflogeion, gweision, asiantau neu is-gontractwyr rhag yr holl achosion, hawliadau, iawndaliadau, gorchmynion, costau (gan gynnwys costau cyfreithiol ond heb fod yn gyfyngedig i hynny), treuliau ac unrhyw atebolrwydd arall o gwbl sy'n deillio o'r Contract neu mewn cysylltiad ag ef, ac wrth i chi ei gyflawni, mewn cysylltiad ag unrhyw farwolaeth neu anaf personol, neu golled neu ddifrod i eiddo a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan unrhyw weithred neu anwaith gennych neu eich Staff.

36.2 Byddwch hefyd yn ein hindemnio ac yn parhau i’n hindemnio, a’n cyflogeion, gweision, asiantau neu is-gontractwyr, rhag unrhyw wariant

sy'n ymwneud ag atgyweirio ein Safle neu brynu cyfarpar newydd yn lle cyfarpar a ddifrodir neu a gollir o ganlyniad i esgeulustod neu Ddiffyg ar eich rhan neu ar ran eich Staff.

36.3 Nid yw’r indemniad yn Amod 36.1 yn gymwys i hawliadau, achosion, iawndaliadau, gorchmynion, costau, treuliau a rhwymedigaethau eraill sy'n deillio o farwolaeth neu anaf personol i bersonau nas cyflogir gennych nac i golled neu ddifrod i eiddo personau nas cyflogir gennych i'r graddau yr achoswyd marwolaeth neu anaf neu golled neu ddifrod i eiddo gan weithred neu anwaith bwriadol gennym neu gan unrhyw un o’n cyflogeion, gweision, asiantau neu is-gontractwyr. At ddiben Amod 36.3, ystyrir y cyflogir person gennych os oedd wedi ei gyflogi ar y dyddiad neu'r dyddiadau y dioddefodd farwolaeth neu anaf neu golled neu ddifrod i'w eiddo.

36.4 Byddwch (i'r graddau bod polisïau yswiriant o'r fath ar gael yn gyffredinol) yn sefydlu ac yn cynnal gydag yswiriwr ag enw da sy'n cynnal busnes yn y DU bolisi neu bolisïau yswiriant sy'n darparu yswiriant ar y lefel a bennir yn y Contract neu os na phennir lefel, yswiriant ar lefel ddigonol mewn cysylltiad â'r holl risgiau y gallwch eu hwynebu yn sgil cyflawni'r Contract, gan gynnwys marwolaeth neu anaf personol neu golli eiddo neu ddifrod i eiddo (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny). Bydd polisïau o'r fath yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):

36.4.1 yswiriant mewn cysylltiad ag unrhyw golled ariannol sy'n deillio o unrhyw gyngor a roddir gennych neu yr anghofiwch ei roi;

36.4.2 yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant atebolrwydd cynnyrch i gynnwys unrhyw atebolrwydd (boed yn deillio o gyfraith contract, camwedd neu fel arall) y gall fod ganddo i ni o dan y Contract, gan gynnwys yswiriant ar gyfer colled neu ddifrod i’n Safle neu unrhyw eiddo sydd yn ein dwylo o bryd i'w gilydd neu dan eich rheolaeth,

36.5 O ran yr yswiriant sy'n ofynnol gennych o dan Amod 36.4 (a heb leihau’r rhwymedigaethau yn yr Amod hwnnw) mae'r isafswm lefelau o yswiriant sydd eu hangen fel a ganlyn:

36.5.1 yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyda therfyn indemniad nad yw’n llai na £5 miliwn mewn perthynas ag unrhyw un hawliad neu gyfres o hawliadau;

36.5.2 yswiriant atebolrwydd cyflogwr gyda therfyn indemniad nad yw’n llai na £5 miliwn mewn perthynas ag unrhyw un hawliad neu gyfres o hawliadau;

36.5.3 yswiriant atebolrwydd cynnyrch gyda therfyn indemniad nad yw’n llai na £500,000;

36.5.4 i’r graddau y darperir ar gyfer Gwasanaethau o dan y Contract (a gofynnwn yswiriant indemniad proffesiynol fel y’i nodir yn y Gorchymyn Prynu neu’r Dogfennau Tendro) gyda therfyn indemniad nad yw’n llai nag £1 filiwn mewn perthynas ag unrhyw un hawliad neu gyfres o hawliadau a byddwch yn

sicrhau bod yr holl ymgynghorwyr proffesiynol neu is-gontractwyr sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaethau yn sefydlu ac yn cynnal yswiriant priodol.

36.6 Ar gais, byddwch yn rhoi i ni dystiolaeth bod yr holl bolisïau yswiriant y cyfeirir atynt yn Amod 36 yn cael eu cynnal, ar ffurf llythyr brocer neu debyg, ynghyd â derbynebau neu dystiolaeth arall bod y premiwm diwethaf a oedd yn ddyledus yn hynny o beth wedi ei dalu.

36.7 Ni fydd telerau unrhyw yswiriant na'r swm yr yswiriwyd ar ei gyfer yn eich rhyddhau rhag unrhyw atebolrwydd o dan y Contract. Chi fydd yn gyfrifol am benderfynu faint o yswiriant a fydd yn ddigonol i'ch galluogi i fodloni unrhyw atebolrwydd y cyfeirir ato o dan Amodau 36.1 ac 36.2.

36.8 Pan fo'n berthnasol i Amod 36, byddwch yn ein hysbysu ar unwaith pan gewch wybod am unrhyw ffaith neu fater a allai olygu y byddwn yn agored i erlyniad.

## 37. CONTRACTWR ARALL

37.1 Rydym yn cadw'r hawl heb arwain at atebolrwydd i chi ddefnyddio contractwr arall ar unrhyw adeg yn ystod y Contract oherwydd eich anallu i ddarparu unrhyw un o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau i'n boddhad am unrhyw reswm y tu hwnt i'n rheolaeth.

37.2 Yn unol ag Amod 6.11, os byddwn yn ysgwyddo taliadau uwchlaw Pris y Contract o ganlyniad i ddefnyddio contractwr arall, cawn, yn ôl ein disgresiwn, ddewis mynnu mai chi sy'n talu'r taliadau hynny.

## 38. TERFYNU

38.1 Cawn derfynu'r Contract drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i chi a ddaw i rym ar unwaith:

38.1.1 os byddwch yn mynd drwy newid rheolaeth, yn unol â diffiniad rheolaeth a gynhwysir yn adran 1124 o Ddeddf Threth Gorfforaeth 2010, sy'n cael effaith andwyol a pherthnasol ar y modd y cyflawnir y Contract; neu

38.1.2 os ydych yn unigolyn neu'n gwmni ac os cyflwynir deiseb ar gyfer eich methdaliad neu os gwneir gorchymyn methdaliad troseddol yn eich erbyn neu unrhyw bartner yn y cwmni, neu os byddwch yn gwneud unrhyw gompównd neu drefniad gyda chredydwyr neu er eu budd, neu yn gwneud unrhyw drawsgludiad neu aseiniad er budd credydwyr, neu os penodir gweinyddwr i reoli eich materion neu faterion y cwmni; neu

38.1.3 os ydych yn unigolyn, rydych yn marw neu rydych yn dod yn destun gorchymyn llys (neu mae gennych ddirprwy wedi'i benodi) o dan adran 16 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005; neu

38.1.4 os ydych yn gwmni, os bydd y cwmni yn gwneud penderfyniad i ddirwyn i ben neu diddymu (heblaw at ddibenion cyfuno neu ailadeiladu a bod hynny'n digwydd mewn gwirionedd yn

ddiweddarach) neu os gwneir cais am orchymyn gweinyddu mewn perthynas ag ef, neu os penderfynir gwneud cais o'r fath mewn unrhyw gyfarfod o'i gyfarwyddwyr neu ei aelodau, neu os bydd unrhyw Barti yn cyflwyno neu'n cofnodi hysbysiad o fwriad i benodi gweinyddwr iddo neu os penodir gweinyddwr o'r fath, neu os bydd y llys yn gwneud gorchymyn dirwyn i ben, neu os bydd y cwmni'n gwneud compównd neu drefniad gyda'i gredydwyr, neu os penodir derbynnydd gweinyddol, derbynnydd, rheolwr, neu oruchwyliwr gan gredydwr neu gan y llys, neu os cymerir meddiant o unrhyw eiddo iddo o dan delerau arwystl sefydlog neu ansefydlog; neu

38.1.5 os ydych yn methu talu eich dyledion yn unol â'r ystyr yn adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986; neu

38.1.6 os cyfyd unrhyw ddigwyddiad tebyg o dan gyfraith unrhyw awdurdodaeth arall rydych yn ddarostyngedig iddi.

38.1.7 os ydych yn torri Amod 27.1

38.2 O ran terfynu oherwydd newid rheolaeth, dim ond o fewn chwe (6) mis ar ôl i'r newid rheolaeth ddigwydd y cawn arfer ein hawl o dan Amod 38.1 ac ni chaniateir i ni wneud hynny pan fyddwn wedi cytuno ymlaen llaw i'r newid rheolaeth penodol sy'n digwydd.

38.3 Byddwch yn ein hysbysu yn ysgrifenedig ar unwaith os cyfyd unrhyw un o'r digwyddiadau a nodir yn Amod 38.1.

38.4 Cawn derfynu'r Contract, neu derfynu darpariaeth unrhyw ran o'r Contract, drwy roi i chi hysbysiad ysgrifenedig a ddaw i rym ar unwaith os bydd Diffyg ar eich rhan ac:

38.4.1 os nad ydych wedi cywiro'r Diffyg i'n boddhad o fewn deg diwrnod ar hugain (30), neu gyfnod arall a bennwn, ar ôl cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig sy'n pennu'r Diffyg ac yn gofyn iddo gael ei gywiro; neu

38.4.2 os nad oes modd cywiro'r Diffyg; neu

38.4.3 os bydd y Diffyg yn torri'r Contract mewn modd ymwrthodol.

38.5 Cawn derfynu'r Contract drwy rybudd ysgrifenedig i chi a ddaw i rym ar unwaith os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau yn rheoliad 73 (1) (a) i (c) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn digwydd.

38.6 Os bydd data a drosglwyddir neu a brosesir mewn cysylltiad â'r Contract yn cael eu colli neu eu diraddio, yn sgil unrhyw Ddiffyg gennych, i'r graddau fel na ellid eu defnyddio, byddwch yn atebol am gost ail-lunio'r data hynny a byddwch yn darparu credyd llawn mewn cysylltiad ag unrhyw dâl a godir am eu trosglwyddo.

## 39. EFFAITH TERFYNU OHERWYDD DIFFYG

Os caiff y Contract ei derfynu yn unol ag Amod 38, neu am Ddiffyg neu

achos o dorri unrhyw rwymedigaeth arall o dan y Contract, cawn, heb ragfarnu unrhyw un arall o'n hawliau, gaffael y Nwyddau a/neu gwblhau'r Gwasanaethau ein hunain neu drefnu bod trydydd parti yn eu cwblhau, gan ddefnyddio at y diben hwnnw (gan wneud lwfans teg a phriodol am hynny mewn unrhyw daliad a wneir i chi wedi hynny) yr holl ddeunyddiau, peiriannau a chyfarpar ar y Safle sy'n eiddo i chi, ac ni fyddwn yn atebol am wneud taliadau eraill i chi nes i'r Nwyddau gael eu danfon a/neu nes i'r Gwasanaethau gael eu cwblhau yn unol â gofynion y Contract, a bydd gennym hawl i dynnu o unrhyw swm sy'n ddyledus i chi unrhyw gostau ychwanegol yn hynny o beth a ysgwyddir gennym (gan gynnwys ein costau ein hunain). Os yw cyfanswm costau ychwanegol o'r fath i ni yn fwy na'r swm (os o gwbl) sy'n ddyledus i chi, gellir adennill y gwahaniaeth gennych.

## 40. CYMAL TERFYNU

40.1 Yn ogystal â’n hawliau i derfynu'r Contract o dan Amod 38, bydd gennym hawl i derfynu'r Contract drwy roi i chi rhybudd nad yw’n llai na deg diwrnod ar hugain (30) i'r perwyl hwnnw.

40.2 Ar ôl cael rhybudd o dan Amod 40.1, bydd gennych hawl i dâl teg a rhesymol am ba ran bynnag o'r Nwyddau rydych wedi ei darparu a/neu ba ran bynnag o'r Gwasanaethau rydych wedi ei chwblhau neu ei dechrau ac nad ydych wedi cael tâl amdani, ac am unrhyw gostau neu rwymedigaethau i drydydd partïon o ganlyniad i unrhyw ymrwymiad a wnaed er mwyn cyflawni'r Contract ac na ellir ei ddadwneud, i'r graddau y gallwch ddarparu tystiolaeth i’n boddhad rhesymol i gefnogi unrhyw symiau rydych yn eu hawlio.

40.3 Ar ôl cael rhybudd o dan Amod 40.1, byddwch yn rhoi'r gorau i ddanfon y Nwyddau a/neu ddarparu'r Gwasanaethau ar unwaith a byddwch yn cymryd pob cam rhesymol ar unwaith i liniaru eich costau a'ch colledion ac yn tynnu'n ôl o unrhyw ymrwymiadau i drydydd partïon sy'n ymwneud â chyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract.

40.4 Ni fyddwn, ar ôl terfynu'r Contract o dan Amod 40.1, yn atebol i dalu unrhyw swm a fydd, o'i ychwanegu at y symiau a dalwyd neu sy'n ddyledus i chi o dan y Contract, yn fwy na'r cyfanswm a fyddai wedi bod yn daladwy i chi pe na bai'r Contract wedi ei derfynu cyn diwedd Cyfnod gwreiddiol y Contract.

## 41. EFFAITH TERFYNU YN GYFFREDINOL

Ni fydd terfynu o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Contract yn rhagfarnu nac yn effeithio ar unrhyw hawl i weithredu neu rwymedi a fydd wedi cronni neu a fydd yn cronni i ni wedi hynny, ac ni fydd yn effeithio ar weithrediad parhaus unrhyw rwymedigaeth y mynegir y bydd yn parhau ar ôl i'r Contract gael ei derfynu neu ddod i ben.

## 42. TARFU

42.1 Byddwch yn cymryd gofal rhesymol i sicrhau nad ydych, wrth weithredu'r Contract, yn tarfu ar ein gweithrediadau na gweithrediadau ein gweision, asiantau, cyflogeion, nac unrhyw gontractwr arall a gyflogir gennym.

42.2 Byddwch yn ein hysbysu ar unwaith ynglŷn ag unrhyw weithredu diwydiannol gwirioneddol neu bosibl gan eich Staff eich hunan neu eich contractwyr, sy'n debygol o effeithio ar eich gallu i gyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract ar unrhyw adeg.

42.3 Os bydd gweithredu diwydiannol gan eich Staff neu eich contractwyr, byddwch yn ceisio ein cymeradwyaeth i'ch cynigion i gyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract. Os byddwn o'r farn bod eich cynigion yn annigonol neu'n annerbyniol, cawn derfynu'r Contract drwy rybudd ysgrifenedig i chi a ddaw i rym ar unwaith.

42.4 Os byddwch, dros dro, yn methu cyflawni unrhyw un o'ch rhwymedigaethau o dan y Contract oherwydd i'n cyfarwyddyd darfu ar eich busnes arferol, byddwn yn cymeradwyo estyniad priodol i'r amser a roddir i gyflawni'r rhwymedigaeth yr effeithir arni.

## 43. ASEINIO AC IS-GONTRACTIO

43.1 Ni fyddwch yn aseinio, yn morgeisio, yn arwystlo nac yn trosglwyddo fel arall unrhyw hawliau neu rwymedigaethau o dan y Contract heb ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw.

43.2 Oni bai ein bod yn cytuno'n ysgrifenedig, ni fyddwch yn is-gontractio'r Contract nac unrhyw ran ohono.

43.3 Os ydych yn is-gontractio unrhyw waith o dan y Contract, byddwch yn parhau'n bennaf gyfrifol i ni am eich holl rwymedigaethau yn y Contract. Gallwn gymryd camau yn eich erbyn os bydd unrhyw is-gontractwr yn methu cyflawni'r rhwymedigaethau dan is-gontract.

43.4 Pan fyddwch yn ymrwymo i is-gontract gyda chyflenwr neu gontractwr at ddiben cyflawni'r Contract, byddwch yn sicrhau bod teler yn cael ei gynnwys yn yr is-gontract sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi dalu i'r is-gontractwr unrhyw symiau nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn cyfnod penodol nad yw'n hwy na 30 diwrnod wedi i anfoneb ddilys ddod i law, fel y'i diffinnir gan ofynion yr is-gontract. Byddwch hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw is-gontractwr yn cynnwys darpariaeth debyg mewn unrhyw gontract y mae'n ymrwymo iddo gyda chyflenwr neu gontractwr.

## 44. FORCE MAJEURE

44.1 At ddiben Amod 44, ystyr '**Force Majeure**' yw unrhyw ddigwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y Parti dan sylw, ac na ellir ei briodoli i unrhyw weithred neu fethiant i gymryd camau ataliol gan y Parti dan sylw, gan gynnwys rheoliadau'r llywodraeth, tân, llifogydd, neu unrhyw drychineb (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny). Nid yw'n cynnwys unrhyw weithredu diwydiannol sy'n digwydd yn eich sefydliad neu yn sefydliad unrhyw is-gontractwr.

44.2 Ni fydd y naill Barti yn atebol i'r llall am unrhyw achos o oedi cyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract (ac eithrio taliad ariannol) nac o fethu gwneud hynny os bydd oedi neu fethiant o'r fath yn deillio o ddigwyddiad Force Majeure. Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech resymol i barhau

i gyflawni ei rwymedigaethau drwy hyn drwy gydol digwyddiad Force Majeure o'r fath. Fodd bynnag, os bydd digwyddiad o'r fath yn atal y naill Barti neu'r llall rhag cyflawni ei rwymedigaethau i gyd o dan y Contract am fwy na chwe (6) mis, caiff y naill Barti neu'r llall derfynu'r Contract drwy rybudd ysgrifenedig a ddaw i rym ar unwaith.

44.3 Dim ond os yw eich asiant, is-gontractwr neu gontractwr ei hun yn cael ei rwystro gan Force Majeure rhag cydymffurfio â rhwymedigaeth i chi, ac i'r graddau hynny, yr ystyrir y bydd unrhyw fethiant neu oedi gennych wrth gyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract sy'n deillio o unrhyw fethiant neu oedi gan eich asiant, is-gontractwr neu gontractwr oherwydd Force Majeure.

44.4 Os bydd y naill un o'r Partïon yn dod yn cael gwybod am amgylchiadau Force Majeure sy'n arwain neu sy'n debygol o arwain at unrhyw fethiant neu oedi ar ei ran, bydd yn hysbysu'r Parti arall ar unwaith drwy ddefnyddio'r dull cyflymaf sydd ar gael ar y pryd, a bydd yn hysbysu'r Parti arall ynglŷn â'r cyfnod yr amcangyfrifir y bydd methiant neu oedi o'r fath yn parhau.

44.5 Er mwyn osgoi amheuaeth, datgenir yn benodol drwy hyn mai'r unig ddigwyddiadau a fydd yn eich rhyddhau rhag atebolrwydd am fethiant neu oedi wrth gyflawni'r Contract fydd unrhyw ddigwyddiad sy'n gymwys fel Force Majeure.

## 45. CWMPAS Y CONTRACT

45.1 Ar bob adeg mewn cysylltiad â'r Contract, byddwch yn gontractwr annibynnol ac nid oes dim yn y Contract yn creu perthynas o asiantaeth na phartneriaeth na menter ar y cyd rhwng y Partïon ac, yn unol â hynny, nid ydych wedi eich awdurdodi i'n rhwymo.

45.2 Ni fyddwch (a byddwch yn sicrhau na fydd eich Staff) yn dweud nac yn gwneud dim a allai beri i unrhyw berson arall gredu eich bod yn gweithredu fel ein hasiant.

45.3 Nid oes dim yn y Contract yn gosod unrhyw atebolrwydd arnom mewn cysylltiad ag unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir gennych i unrhyw berson arall ond ni chymerir bod hyn yn rhwystro nac yn cyfyngu ar unrhyw atebolrwydd gennym i chi a all godi yn rhinwedd torri'r Contract neu unrhyw esgeulustod ar ein rhan, nac ar ran ein cyflogeion, gweision, asiantau neu is-gontractwyr.

## 46. HYSBYSIADAU

46.1 Ac eithrio pan ddarperir yn benodol fel arall yn y Contract, ni fydd unrhyw hysbysiad na gohebiaeth arall gan un Parti at y llall yn ddilys o dan y Contract oni bai y'i gwneir yn ysgrifenedig gan y Parti dan sylw neu ar ei ran.

46.2 Bydd unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth arall sydd i'w roi gan y naill Barti i'r llall yn cael ei roi drwy lythyr (wedi'i anfon â llaw, drwy'r post, y post cofrestredig, neu drwy'r gwasanaeth danfon post wedi'i gofnodi), neu bost electronig (wedi ei gadarnhau drwy lythyr). Bydd llythyrau o'r fath yn cael

eu hanfon at y Parti arall gan ddefnyddio'r cyfeiriad a nodir yn y Contract neu gyfeiriad arall y caiff y naill Barti ei enwebu i'r llall o bryd i'w gilydd.

46.3 Ar yr amod nad yw'r ohebiaeth berthnasol yn cael ei dychwelyd heb iddi gyrraedd pen ei thaith, tybir bod yr hysbysiad neu'r ohebiaeth wedi cael ei roi ddau (2) Ddiwrnod Gwaith ar ôl y diwrnod y cafodd y llythyr ei bostio, neu bedair (4) awr, yn achos post electronig neu cyn hynny pan fo'r Parti arall yn cydnabod bod llythyr neu bost electronig o'r fath wedi dod i law.

## 47. GWARANTAU

47.1 Rydych yn gwarantu, yn mynegi ac yn ymrwymo’r canlynol i ni:

47.1.1 mae gennych y gallu a'r awdurdod llawn a phob cydsyniad angenrheidiol i ymrwymo i'r Contract a’i gyflawni, a bod y Contract wedi ei lofnodi ar eich rhan gan rywun yr awdurdodir iddo wneud hynny;

47.1.2 rydych yn cydnabod ein bod yn ymrwymo i'r Contract ar sail gwybodaeth a ddarperir gennych, p'un a yw wedi'i gynnwys yn y Dogfennau Tendro neu fel arall, ac mae'r wybodaeth a ddarperir i ni gennych yn wir, yn gywir ac yn gyflawn ym mhob ystyr materol, ac nad ydynt yn gamarweiniol;

47.1.3 bydd y Gwasanaethau (os o gwbl) yn bodloni'r Fanyleb ym mhob ffordd; a

47.1.4 byddwch, yn ychwanegol at eich rhwymedigaethau penodol fel y'u nodir yn y Contract, yn dal unrhyw drwydded, hawlen a/neu dystysgrif sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith er mwyn cyflawni'r Contract.

47.2 Rydym yn gwarantu, yn mynegi ac yn ymrwymo i chi bod gennym y gallu a'r awdurdod llawn a phob cydsyniad angenrheidiol i ymrwymo i'r Contract a’i gyflawni, a bod y Contract wedi ei lofnodi ar ein rhan gan rywun yr awdurdodir iddo wneud hynny.

47.3 Rydych yn gwarantu eich bod yn gyfrifol am gywirdeb yr holl luniadau, dogfennaeth a gwybodaeth a gyflenwir i ni neu unrhyw un o'ch is-gontractwyr neu asiantau a byddwch yn talu i ni unrhyw gostau ychwanegol a achosir gan unrhyw anghysondebau, gwallau neu hepgoriadau ynddynt.

## 48. AMRYWIAD

Yn ddarostyngedig i Amod 19 (Rheoli Newid), ni fydd amrywiad i'r Contract yn ddilys oni bai bod llofnodwyr awdurdodedig y ddau barti yn cadarnhau hynny'n ysgrifenedig.

## 49. HAWLILDIO

Dim ond os caiff ei roi'n ysgrifenedig y daw hawlildiad i rym mewn perthynas ag unrhyw hawl neu rwymedi o dan y Contract neu'r gyfraith, ac nid ystyrir bod hawliau wedi eu hildio mewn unrhyw achos dilynol o

dorri amodau neu ddiffygdalu. Ni fydd y ffaith bod y naill neu'r llall ohonom yn peidio ag arfer unrhyw hawl neu rwymedi a ddarperir o dan y Contract neu gan y gyfraith neu yn oedi cyn gwneud hynny, yn gyfystyr ag ildio'r hawl neu rwymedi dan sylw nac unrhyw hawl neu rwymedi arall, ac ni fydd yn ein hatal rhag arfer eto yr hawl neu rwymedi dan sylw neu unrhyw hawl neu rwymedi arall nac yn cyfyngu ar ein gallu i wneud hynny. Ni fydd unrhyw achos unigol o arfer hawl neu rwymedi o'r fath, nac achos o'i harfer yn rhannol, yn atal unrhyw barti rhag arfer eto yr hawl neu rwymedi dan sylw neu unrhyw hawl neu rwymedi arall nac yn cyfyngu ar ein gallu i wneud hynny.

## 50. HOLLTI'R CONTRACT

Er gwaethaf y ffaith y gall unrhyw ddarpariaeth gyfan yn y Contract neu unrhyw ran ohoni fod yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, bydd darpariaethau eraill y Contract a gweddill y ddarpariaeth dan sylw yn parhau mewn grym llawn.

## 51. HAWLIAU TRYDYDD PARTI

51.1 Ni fydd gan berson nad yw'n barti yn y Contract hawliau i orfodi ei delerau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 nac fel arall.

51.2 Nid yw hawliau'r Partïon i derfynu, ddiddymu neu gytuno i unrhyw amrywiad, hawlildiad neu setliad o dan y Contract yn amodol ar gydsyniad unrhyw berson arall.

## 52. CYTUNDEB CYFAN

52.1 Y Contract yw'r cytundeb cyfan rhwng y Partïon ac mae'n disodli ac yn diddymu pob contract, cytundeb, addewid, sicrwydd, gwarant, sylw a dealltwriaeth flaenorol rhwng y Partïon, boed hynny'n ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n ymwneud â'i bwnc.

52.2 Mae pob Parti yn cydnabod nad yw, wrth ymrwymo i'r Contract, yn dibynnu ar unrhyw ddatganiad, sylw, sicrwydd na gwarant (boed a wnaed yn ddiniwed neu'n esgeulus) gan unrhyw berson (boed yn barti yn y Contract ai peidio) ac eithrio fel y nodir yn benodol yn y Contract neu'r dogfennau hynny. Nid oes dim yn Amod 52 yn cyfyngu atebolrwydd am gamliwio twyllodrus.

52.3 Mae pob Parti yn cytuno na chaiff hawlio am achos o gamliwio'n ddiniwed nac yn esgeulus yn seiliedig ar unrhyw ddatganiad yn y Contract.

## 53. DATRYS ANGHYDFODAU

53.1 Os bydd anghydfod yn deillio o'r Contract, o'i gyflawni, o'i ddilysrwydd neu o'r graddau y mae modd ei orfodi, neu mewn cysylltiad â hynny ('**Anghydfod**'), bydd y Partïon yn cydymffurfio â'r weithdrefn a ganlyn:

53.1.1 bydd y naill Barti yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r llall am yr Anghydfod, gan nodi ei natur a'r manylion llawn ('**Hysbysiad Anghydfod**'), ynghyd â dogfennau ategol perthnasol. Ar ôl cyflwyno'r Hysbysiad Anghydfod, bydd y cynrychiolwyr

awdurdodedig priodol (o hynafedd priodol) yn gwneud ymdrech ddidwyll ac yn gweithredu'n rhesymol i ddatrys yr Anghydfod;

53.1.2 os na ellir datrys yr Anghydfod am unrhyw reswm o fewn 10 Diwrnod Gwaith i gyflwyno'r Hysbysiad Anghydfod, bydd yr Anghydfod yn cael ei gyfeirio i Gyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd ac i unigolyn o statws tebyg a enwebir gennych, a fydd yn ceisio ei ddatrys yn ddidwyll a chan weithredu'n rhesymol; a

53.1.3 os na ellir datrys yr Anghydfod am unrhyw reswm o fewn 10 Diwrnod Gwaith ychwanegol, bydd y Partïon yn ceisio ei setlo drwy gyfryngu yn unol â Gweithdrefn Gyfryngu Enghreifftiol y Ganolfan ar gyfer Datrys Anghydfodau'n Effeithiol. Oni chytunir fel arall rhwng y Partïon, bydd y cyfryngwr yn cael ei enwebu gan CEDR Solve. Er mwyn dechrau'r broses gyfryngu, bydd Parti yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig (‘**hysbysiad ADR**’) i’r Parti arall yn yr Anghydfod, yn gofyn am gyfryngu. Dylid anfon copi o'r hysbysiad ADR at CEDR Solve. Bydd y broses gyfryngu yn dechrau o fewn 15 Diwrnod Gwaith fan bellaf ar ôl dyddiad yr hysbysiad ADR oni chytunir fel arall rhwng y Partïon.

53.2 Ni fydd cychwyn y broses gyfryngu yn atal y Partïon rhag cychwyn neu barhau ag achos mewn perthynas â'r Anghydfod o dan Amod 55 (sy'n gymwys ar bob adeg).

## 54. RHWYMEDÏAU AC IAWNDAL

35.1 Mae'r hawliau a'r rhwymedïau sydd gan bob un o’r Partïon hawl iddynt o dan y Contract yn gronnus ac nid ydynt yn nacáu unrhyw hawliau a rhwymedïau y darperir ar eu cyfer gan y gyfraith neu fel arall.

54.2 Heb ragfarnu unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill sydd gennych chi, neu sydd gennym ni, rydych yn cydnabod ac yn cytuno na fyddai iawndal ar ei ben ei hun yn rwymedi digonol i unrhyw achos o dorri amodau’r Contract hwn gennych chi. Yn unol â hynny, mae gennym hawl i rwymedïau gwaharddeb, perfformiad penodol neu ryddhad ecwitïol arall am unrhyw achos bygythiedig neu wirioneddol o dorri telerau’r Contract hwn.

## 55. Y GYFRAITH AC AWDURDODAETH

Ystyrir bod y Contract hwn yn gontract a wnaed yng Nghymru a bydd yn cael ei lywodraethu a’i ddehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr, fel y mae'n gymwys yng Nghymru. Bydd pob anghydfod sy'n deillio oddi tano neu mewn cysylltiad ag ef (yn ddarostyngedig i Amod 53) yn cael ei gyflwyno, yn y lle cyntaf, i awdurdodaeth anunigryw Llysoedd Cymru a Lloegr sy’n eistedd yng Nghaerdydd.